YR YMOFYNYDD.

RHIF. 42.] MEHEFIN, 1862. [AIL GYFRES.

CRIST, YR UNIG FFORDD AT Y TAD.

Pregeth a draddodwyd mewn Cyfarfod Cwarterol yn Mhenybont-ar-ogwr, Ebrill 24, 1862. *Gan y Parch.* O. EVANS.

"A'r Iesu a ddywedodd wrtho ef, Myfi yw'r ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd: nid oes neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi."—Ioan xiv. 6.

O'R Iesu anwyl! ei eiriau melus; ei ymadrodd cysurlawn; ei waith nefolaidd; ei neges gariadlawn! Dwyn dynion—i ble? Nid at elyn i gael eu dinystrio; nid at farnwr i gael eu dedfrydu; nid at estron difatter ynghylch eu lles a'u dedwyddwch: nage; ond at y Tad anghydmarol ei gariad, doeth ei amcanion; i fonwes tynerwch heb ei fath; i afael trugaredd heb un cwmwl i'w gaddugo; i freichiau un ag sydd yn medru canfod ei fab afradlon trwy'r carpiau, yn addef y berthynas er nad oedd gan ei blentyn un esgyd am ei draed noeth, yn gweled ei ddelw yn y gruddiau oeddent wedi eu difa gan y newyn a ddygodd ei afradlondeb arno. Gallasai bassio heibio ei gyfeillion goreu gynt heb gael ei adnabod ganddynt; gallasai ei geraint ei weled yn rhy dylawd i arddel ei berthynas; gallasai ei frawd anfoddloni ei weled yn troi at ddrws ei Dad am damaid o fara er ymron yn newynu; ond y mae ei Dad yn ei ganfod o bell, yn tosturio, yn rhedeg, yn syrthio ar ei wddf, ac yn ei gysanu. A thyma beth yw neges Iesu i'r byd; dwyn yr afradlon at ei Dad; cymmodi'r pechadur â Duw, ac nid Duw â'r pechadur; dangos iddo y wledd sydd ar ei gyfer yn nhŷ llawn ei Dad; dangos iddo y groesaw a gaiff ond dychwelyd adref; y drwg y mae'n wneuthur iddo ei hun trwy beidio dychwelyd; ei fod ymhlith estroniaid, yngwlad y newyn; y mae'r Iesu yn taer ymbil arno i ffoi o afael angau i freichiau ei Dad; oddiwrth yr hwn fyddai yn edrych ar y cibau yn fwy o werth na'i fywyd ef, at yr hwn nad oedd dim yn ei dŷ yn rhy werthfawr i wledda ei fab oedd ar newynu. Ac felly y mae'r afradlon yn cael ei ddwyn atto ei hun, ac yn y fan, y mae'n codi ac yn myned at ei Dad. Sylwch, yr afradlon sydd yn dyfod atto ei hun, nid ei Dad, y pechadur sydd i ddyfod o'i gamsynied ac nid Duw; hwn sydd i gael ei gymmodi â duw, ac nid Duw âg ef: ein dwyn *ni* at y Tad y mae Crist, ac nid y Tad attom ni, medd ein testun. O eiriau hyfryd! O ddysgawdwr heb ei fath! "Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn." "Nid oes neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi." A chwedi ein dwyn at y Tad; wedi dangos ini ein cyfaill goreu yn berchen ar bob awdurdod, y mae'n myned yn addoli yn gymwys; nid oes modd peidio. Nid addoliad ffurfiol: ond addoliad ysprydol, addoliad pur y galon edifeiriol, add-

oliad y deall wedi gweled ei gamsynied; ïe, addoliad un wedi dyfod atto ei hun a chofio ynghanol ei drueni fod ganddo Dad ydyw. Ac felly y mae geiriau Crist wrth y wraig o Samaria yn cael eu gwirio ar ran yr hwn sydd yn edrych ar ei Dduw trwy'r Iesu, "Mae'r awr yn dyfod, ac yn awr y mae hi, pan addolo y gwir addolwyr y Tad, mewn yspryd a gwirionedd." O awr hyfryd! O amser dedwydd! Yr awr *hon* fyddo yr awr honno i bob dyn sydd yma yn bresenol. Awn gyda'r Iesu at y Tad, heb oedi yn hwy. Colled, na fedd ein hiaith ar eiriau i'w osod allan, yw bod yn mhell oddiwrth y Tad am un funud. Nid yw colli holl drysorau'r byd ddim at golli ein golwg ar Dduw ein Tad; nid yw colli ein cyfeillion goreu ddim at fod heb y cyfaill hwn; nid yw bywyd ei hun ddim yn werth ei gadw heb dadoldeb Duw i sirioli ei holl amgylchiadau.

Y mae'r Iesu yn ein dwyn at y Tad, oblegid fod ei Dad yn *fwy* nag ef, "Pe carech fi," ebe fe, "chwi a lawenhaech am i mi ddywedyd wrthych yr wyf fi yn myned at fy Nhad, canys y mae fy Nhad yn fwy na Myfi." Y mae'r Iesu yn ein dwyn at y Tad, oherwydd fod ei Dad yn well nag ef, "Paham y gelwch fi yn dda," ebe fe, "nid oes neb *da* ond *un*, sef Duw." Er cymmaint oedd mawredd yr Iesu, dygai ei ddysgyblion at un o fwy; er mor helaeth ei ddaioni; er mor ddyngarol ei weithredoedd; er mor wresog ei gyfeillgarwch; er mor gryf ei gariad; er mor dyner ei galon; dangosai un o well i'w ganlynwyr; dygai hwynt at achos mawr, at ffynon ddiddyspydd o bob daioni ac ardderchawgrwydd. Un ag y mae'r galon hiraethlon, wedi cael gafael ar ei Thad, yn gwaeddi allan gyda'r Salmydd, "Pwy sydd gennyf fi yn y nefoedd ond tydi? Ac ni ewyllysiais neb ar y ddaear gydâ thydi."

I. YMDRECHAF DDANGOS PWY FFORDD Y MAE CRIST YN EIN DWYN AT Y TAD; A'I FOD EF YN GWNEUTHUR HYNNY YN EFFEITHIOL HEFYD.

II. NAD OES NEB OND EI HUNAN YN GWNEUTHUR HYN. "NID OES NEB YN DYFOD AT Y TAD OND TRWOF FI."

III. Y PURDEB, YR YSPRYD ADDOLGAR, A'R CYSSUR A'R DIDDANWCH SYDD YN TARDDU O DIAR YR OLWG HON AR DDUW. Y MAE YMA DDIOGELWCH HEB EI FATH.

I. Y FFORDD Y MAE CRIST YN EIN DWYN AT Y TAD.

Mewn un ystyr y mae'n amhosibl myned at y Tad, na dyfod oddiwrtho. Y mae ef yn llanw pob man; uwch, a than, a thrwy y cyfan. "Ynddo ef yr ydym yn byw, yn ymsymud, ac yn bod." Dyma wybodaeth rhy ryfedd i mi, ni fedraf oddiwrthi. "Os dringaf i'r nefoedd, yno yr wyt ti: os cyweiriaf fy ngweli yn uffern, wele di yno. Pe cymmerwn adenydd y wawr, a phe trigwn yn eithafoedd y mor: yno hefyd y'm tywysai dy law, ac y'm daliai dy ddeheulaw."—Salm 139. Oddiwrth yr ymadroddion ardderchog hyn, y mae'n amlwg nad yw'n bossibl myned at na dyfod oddiwrth Dduw yn gorphorol; ac y mae'r fath ymadroddion i'w cyfarfod yn fynych yn yr Ysgrythyrau ag a ddangosant fynediad o ryw fath neu gilydd at Dduw a dyfodiad oddiwrtho: megis *trowch* eich wynebau attaf fi holl gyrrau'r ddaear, fel eich achuber. *Deuwch* yr awr hon, ac ymresymwn, medd yr Arglwydd; nid oes neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi, medd Iesu. Ond er nad yw yn alluadwy i symud yn lleol at Dduw, y mae ystyr, ag ystyr yn yr hon y mae gwirionedd pwysig yn gynnwysedig; ystyr yn cyfeirio at y meddwl, nid y corph; at sefyllfa foesol, ac nid lleol. Yn yr ystyr hon gellir dywedyd am yr hwn sydd yn anwybodus o Dduw, yn byw yn annhebyg iddo,

ac yn anystyriol o hono, ei fod *ymhell* oddiwrtho; a phan byddo ei feddwl yn cael ei oleuo i ganfod perffeithderau yr hwn a'i gwnaeth, y llaw sydd yn ei gynnal; y cariad sydd yn gofalu am dano; pan fyddo trwy hynny yn cael ei ddwyn i gofio ei Greawdwr, i gydnabod ei hun, ac i fyw fel yn ei wyddfod yn barhaus, gellid dywedyd am hwn ei fod wedi dyfod at Dduw, ei fod yn rhodio gydag ef. O'r blaen yr oedd ymhell, yn awr y mae yn agos; o'r blaen nid oedd Duw yn ei holl feddyliau, yn awr y mae ei holl galon gyda'i Dduw. Er fod Duw yn llenwi pob man, etto gwyddom, nis gellir gwadu'r ffaith, nad yw'r meddwl ddim bob amser gyda Duw. Dan yr hen oruchwyliaeth dywedid fod Duw yn *ymweled* a'i bobl, yn *dyfod* attynt, pan yr oedd yn cyfodi prophwyd i'w dysgu a'u cyfarwyddo, a gellid dywedyd hefyd fod dynion gyda Duw, pan dan ei gyfarwyddid, megys Enoch a rodiodd gyda Duw, a *chyfaill* Duw ei gelwid ef. Yr oedd Ioan Fedyddiwr wedi ei anfon oddiwrth Dduw, hynny yw, cenhadwri Duw oedd ganddo; felly hefyd yr oedd Iesu wedi dyfod oddiwrth y Tad, wedi cael ei awdurdodi ganddo, a'i neges oedd, ac yw, dwyn dynion at Dduw. "Nid oes neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi." Y mae'r Iesu yn dwyn dynion at Dduw, nid eu personau, ond yn eu meddwl, trwy eu dysgu i adnabod Duw; ac y mae yn gwneuthur hyn yn—

1. *Trwy ei ddysgeidiaeth.*—Un ffrwd nerthol yn dylifo o fynwes y Tad oedd dysgeidiaeth yr Iesu. "Fy nysgeidiaeth, nid eiddof fi ydyw," oedd ei iaith ef; ac y mae'n deilwng o Greawdwr y bydoedd, o Dad yr holl hiliogaeth ddynol, o Dduw'r cariad ei hun. Canad mewn peth yr ydym yn gwahaniaethu oddiwrth ein gilydd; canad pa faint o anhawsderau ddichon ein gorddiwes ar lawer o bynciau; canad pa mor anhawdd dadrus llawer o gwestiynau dyrus; ni ddylai un amheuaeth fod gan un Cristion ynghylch dysgeidiaeth yr Iesu am garacter Duw. Y mae ei holl ymddiddanion yn dangos y Tad yn eglur. Pam y dywedodd wrth y wraig o Samaria fod yr awr yn dyfod pan y byddai i bob gwir addolwr addoli'r Tad mewn yspryd a gwirionedd? Am y gwyddai fod ei ddysgeidiaeth ef yn taflu'r fath ddisgleirdeb ysplenydd ar garacter Duw ag y fyddai yn sicr o ddileu pob camsynied yn ei gylch, a thynu pob calon i'w garu a phob glin i blygu iddo; am y gwyddai fod gallu Duw o blaid y gwirionedd pwysig hwn, ac nad oedd gallu mewn bodoliaeth a allai attal tadoldeb i ymdemlu ynghalon dyn; am y gwyddai nad oedd dyn, ag nas gallasai chwaith fod, yn ddedwydd dan ddylanwad un athrawiaeth arall; am y gwyddai nattur dyn, ei angenion, a'i alluoedd moesol a dealltwriaethol. Y mae'r Iesu yn ein dwyn at y Tad trwy ei wirionedd; y mae adnod ein testun yn dangos hyn: "Myfi yw'r ffordd, y *gwirionedd*, a'r bywyd, ac nid oes neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi." Nid oes un ffordd arall at y Tad ond trwy y gwirionedd. Y mae'r Iesu mewn man arall etto yn dangos pa ffordd y mae ef yn ein dwyn at y Tad: "nid edwyn neb y Mab ond y Tad; ac nid edwyn neb y Tad ond y Mab, a'r hwn yr ewyllysio'r Mab ei *ddatguddio* iddo." Trwy ddatguddiad ynte mae myned at y Tad; dyma'r ffordd i adnabod Duw. A thrachefn dywed yr Iesu, "Ni welodd neb Dduw erioed: yr unig-anedig Fab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnnw a'i *hyspysodd* ef." Trwy roddi hyspysrwydd am Dduw, y mae ein Harglwydd Iesu Grist yn ein harwain ni atto. Ac y *mae*'r Iesu yn rhoddi hyspysrwydd i ni am Dduw; y mae ei ddatguddiad yn ein galluogi i adwaen y Tad; y *mae* ei wirionedd yn ffordd i'n harwain at y Tad. Y mae'r Iesu yn gweddio, clywch mae ef yn gweddio; clywch hyn,

chwi y rhai ydych yn tybied fod yr Iesu ei hun yn wrthrych gweddi, mae ef yn gweddio; clywch hyn, y rhai na phlygasoch y glin i Dad ein Harglwydd Iesu Grist, y mae ef yn gweddio, a darllenwch eich dyledswydd yn y weddi: ac, O! y fath deimladrwydd, y fath wresogrwydd sydd yn y weddi; yr oedd rhai eraill yn *rhith* weddio, ond y mae holl galon yr Iesu yn y weddi. Beth yw'r achos o'r gwahaniaeth? Dyma fe; ar y *Tad* oedd ef yn gweddio, ac ar eilun o waith eu dychymyg eu hunain yr oedd eraill yn gweddio. Yr oedd gwir grefydd gan yr Iesu, rhith gan eraill. Ond pam y gwnai yr Iesu weddio ar y Tad mor aml? Un achos pam y gwnai hyn yn amlwg oedd fel y dygai ni at wrthrych teilwng, unig wrthrych ein haddoliad. Wrth gyfodi Lazarus y mae Crist yn gweddio ac yn dangos diben ei weddi. "A'r Iesu a gododd ei olwg i fynu, ac a ddywedodd, Y Tad, yr wyf yn diolch i ti am i ti wrando arnaf. Ac myfi a wyddwn dy fod di yn fy ngwrando *bob amser:* eithr er *mwyn y bobl sydd yn sefyll o amgylch y dywedais,* fel y credont mai *Tydi* a'm hanfonaist i." Bryd hyn yr oedd yr Iesu trwy nerth Duw, trwy gymorth ei Dad, yn myned i gyflawni gweithred na wnawd o'i bath hi erioed o'r blaen, gweithred a fyddai yn ddigonol brawf, heb achos wrth rhagor, o'i dduwdod priodol ef ei hun, ei fod yn wrthrych priodol addoliad dwyfol; ond y mae'r Iesu, yr hwn ni chaed twyll yn ei enau, yn cymeryd gofal na fyddai i weithred mor ardderchog fod yn sylfaen i dwyll mor niweidiol; y mae ef yn gweddio, a thyna ddiwedd ar bob twyll yn y man. Os yw'r weithred yn nerthol, y mae'n ymddangos eiddo pwy oedd y nerth; a thrwy'r weddi a'r weithred y mae'n dwyn y rhai a wrandawant arno at y Tad, ac nid atto ei hun. Nid oes un amheuaeth nad gallu dwyfol a gyfododd Lazarus o'i fedd; llai ni wnai'r tro; ond nid oes amheuaeth hefyd gallu pwy ddarfu gyflawni hyn; mae'r gwr ddarfu weddio wedi dangos y llaw oedd yn gweithredu. Felly, at y Tad yr ydym yn cael ein harwain gan yr Iesu. Nid dyma yr unig amser y darfu i'r Iesu weddio, ac felly nid dyma'r unig gyfarfwyddid a gawn ganddo i fyned at y Tad, fel gwrthrych addoliad. Aml y gweddiai'r Iesu, ac ni newidiodd wrthrych ei addoliad gymaint ag un waith, ac nid oedd achos iddo chwaith. Y Tad a addolai ar ddechreu ei siwrnai o gariad, y Tad trwyddi, y Tad ar ei diwedd. Gwnaeth hyn heb deimlo fod dim yn ddiffygiol yn yr addoliad; gwnaeth hyn heb ddywedyd gair fod eisiau rhagor. "Yr wyf yn diolch i ti, O Dad, Arglwydd nef a daear, am i ti guddio'r pethau hyn rhag y doethion a'r deallus, a'u datguddio o honot i rai bychain; ïe, O Dad, canys felly y rhyngodd bodd i ti." Yr un gwrthrych addoliad a gawn etto yn ei weddi daer dros ei ddisgyblion, ychydig cyn ymadael â hwynt. "Y Tad sanctaiddiol, cadw hwynt trwy dy enw. Y Tad, y rhai a roddaist i mi, yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau gyda myfi." Yngardd Gethsemane, pan yngolwg yr ymdrech caled oedd o'i flaen, y mae'r Iesu yn gweddio, a'r un gwrthrych gweddi sydd ganddo yno etto. "O *Dad*, os yw bossibl, aed y cwppan hwn heibio oddiwrthyf; etto, nid fel yr ydwyf fi yn ewyllysio, ond fel yr ydwyt ti." Arferodd yr un geiriau dair gwaith. Ar y groes etto y mae'r Iesu yn gweddio gan ddywedyd, "O Dad, maddeu iddynt, canys ni wyddant beth y maent yn ei wneuthur." "O Dad, i'th ddwylaw di y gorchymynaf fy yspryd. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a drengodd." Ond i beth y gwnaf amlhau difyniadau o weddiau Crist; dangoswch ryw weddi o eiddo'r Iesu lle nad y Tad yw unig wrthrych ei addoliad. Felly y mae Crist yn e; weddiau yn ein dwyn at y Tad.

Wrth ddysgu eraill i weddio, y mae'n gwneuthur yr un peth. Yn y ffurf o weddi, yr unig un a roddodd erioed, y Tad yw gwrthrych addoliad pob disgybl i'r Iesu. Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd, &c., 'does achos adrodd rhagor o honi, chwi a'i gwyddoch. Nid oes dim cymysgedd yma; mae'r ffordd yn rhwydd, a'r achos o hynny ydyw ei bod yn arwain at y Tad. Wedi rhoddi ffurf gweddi gyhoedd, y mae'r Iesu hefyd yn rhoddi cyfarwyddid ynghylch gweddi ddirgel. Nid yw hon i gael ei hesgeuluso gan ddisgyblion Iesu, ond dylent ofalu pwy fydd yn cael ei addoli. "Ond tydi, pan weddiech, dos i'th ystafell; ac wedi cau dy ddrws, gweddia." Ar bwy, debygech? Ai ar Dad, Mab, ac Ysbryd? Nage: ai ar Iesu ei hun? Nage: ond gweddia ar dy *Dad*, yr hwn sydd yn y dirgel; a'th Dad yr hwn a wel yn y dirgel, a dal i ti yn yr amlwg. Gyfeillion, nid wyf yn gofyn a ydych yn gweddio yn y dirgel; ond yr wyf yn gofyn mewn modd difrifol, wedi cau'r drws, pwy sydd yn y dirgel yn cael ei addoli genych? Y mae'n amlwg pwy *ddylai*, chwi a minnau sydd i atteb pwy *sydd* yn cael ei addoli genym. Y *mae* UN, a wel yn y dirgel, *a dim ond un*. Y *mae un* a dâl yn yr amlwg, ac nid oes ond efe a all wneuthur *hynny*. Gan hynny wrth gau y drws, cofiwch pwy sydd yn gwrando gweddi yn y dirgel; wrth blygu'r glin cyn gorphwys, cofiwch i ofal pwy y dylech gyflwyno eich hunain a'r oll a feddwch. Cofiwch, *da* chwi, cofiwch gyfarwyddid yr Iesu, ac yr wyf yn sicr mai ym mreichiau eich Tad y byddwch yn dewis huno. Nid oes gofal fel ei ofal ef. A phan yn dihuno gyntaf yn y bore, cofiwch yr hwn sydd wedi talu i chwi eisioes yn yr amlwg, wedi gofalu am danoch yn oriau tywyll y nos, wedi eich dwyn i weled goleuni dydd newydd, ac i gyflawni dyleswydd newydd; i blygu o'i flaen mewn diolchgarwch, mewn gweddi. Na foed eich addoliad yn rhanedig, eich Tad y piau fe i gyd. Felly ynte, p'un ai cyhoedd neu ddirgel y weddi; p'un ai gweddio ei hunan, neu gyfarwyddo eraill i weddio oedd Crist, y mae'n amlwg at bwy yr awn trwy yr Iesu. "Nid oes neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi."

Priodolai'r Iesu hunan-ymwadol ei ddysgeidiaeth a'i weithredoedd nerthol i'w Dad bob amser. "Y Tad yr hwn sydd yn aros ynof, efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd." I beth y mae'n dywedyd felly? I'n dwyn at y Tad. Y mae'r Iesu yn dysgu, fel na lefarodd dyn erioed fel efe; ond nid yw yn anghofio dywedyd wrthym eiddo pwy oedd y ddysgeidiaeth. "Fy nysgeidiaeth nid eiddof fi yw; eithr eiddo yr hwn am hanfonodd i." Ac os oes amheuaeth gennych pwy a'i hanfonodd, pwy roddodd y ddysgeidiaeth hon iddo; gwrandewch arno ymhellach yn dywedyd, "Yna y cewch wybod mai myfi yw efe, (y Crist), ac nad wyf fi yn gwneuthur dim o honof fy hun; ond megis y dysgodd fy *Nhad* fi, yr wyf yn llefaru y pethau hyn." A thrachefn y mae yn dywedyd, "Canys myfi ni lefarais o honof fy hun; ond y *Tad* yr hwn a'm hanfonodd i, efe a roddes orchymyn i mi, beth a ddywedwn, a pha beth a lefarwn. Ac mi a wn fod ei orchymmyn ef yn fywyd tragwyddol." I beth y dywedodd yr Iesu fel hyn? I'n dwyn at y Tad, ac nid oes neb yn myned at y Tad ond trwyddo ef. Gwn fod rhai yn dywedyd mai fel yr oedd yn ddyn yr oedd Iesu yn dywedyd felly. Fel peth arall y *gallasai* ddywedyd? Pe buasai rhyw fel arall yn perthyn iddo, buasai yn sicr o ddywedyd hynny er mwyn achub dyn, oblegid dyma ei neges ef i'r byd. Ond nis gwnaeth hynny yn un man; a lle mae Crist yn fud, dyleswydd pob dyn yw i fod yn ddistaw. Dywedir hefyd fod ei wyrthiau a'i ddoethineb di-ail yn brofion o'i dduwdod; ond nid felly y dywed Crist;

eithr yn hollol i'r gwrthwyneb ; dywed ef mai'r *Tad* oedd achos y naill a'r llall o honynt ; a phwy allasai wybod yn well nag ef debygech chwi ? Ai Calvin ; ai St. Athanasius ; ai Melancthon ; ai Luther ? Dim ; dim ydynt holl mewn cydmariaeth iddo ef. Pam mae'r Iesu yn fud lle maent hwy yn llefaru ? Ai oherwydd fod eu serch hwy at les tragwyddol dyn yn fwy na chariad yr Iesu a fu farw ? Amhossibl ; ac amhossibl hefyd fod neb ond y Tad yn Dduw.

Y mae'r Iesu ymhellach wrth ddysgu yn dangos tynerwch, cariad, gofal, maddeugarwch, a thrugaredd Duw. Nid Tad mewn enw oedd ganddo, ond Tad yn caru, caru pawb. Y mae'n tynu i'r llawr ganolfur y gwahaniaeth oedd yn ysgaru yr Iuddew a'r Groegwr oddiwrth eu gilydd. Caeth a rhydd ydynt wrthrychau cariad Duw. Ond pwy ffordd, attolwg, y mae'r Iesu yn gwneuthur hyn, ond trwy ddysgu tadoldeb cyffredinol Duw. Dyma air nerthol i ladd pob culni. Nid all y muriau cadarnaf ddim sefyll o'i flaen. Planwch dadoleb Duw ynghalon y milwr, ac yn lle lladd, fe neidia i achub ei frawd ; dangoswch dadoldeb Duw i'r hwn sydd wedi cyfodi'r flangell i ddarnio cnawd ei gaethwas, a chewch ei weled yn rhedeg i gofleidio ei frawd yn lle ei labyddio, Tadoldeb ! y mae'n gallu pob peth ; a thyma'r moddion oedd gan Iesu i ddarostwng y byd, trwy ddwyn y *byd at y Tad.* At Dad yn gofalu am danom y mae'r Iesu yn ein dwyn. Y mae holl wallt ein pen yn gyfrifedig ganddo. Y mae yn gofalu am adar y nefoedd ; faint mwy am danom ni ? yn dilladu lili y maes, ac oni ddillada efe ni yn hytrach o lawer ? Am hynny yn gyntaf ceisiwn deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a'r holl bethau hyn a roddir i ni yn ychwaneg. Y mae'r Iesu yn ein dwyn at Dad maddeugar, tosturiol, a thrugarog. Y mae'n maddeu yn rhad, heb un tal na son am dano. Nid oedd eisiau i'r mab hynaf i eiriol ar ei Dad i dderbyn y Mab afradlon ; i dalu'r ddyled yn ei le, a myned i ddeddfle'r pechadur. Y Tad ei hun sydd yn gwneuthur y cyfan ; efe sydd yn rhedeg i'w gyfarfod ; efe sydd yn syrthio ar ei wddf ; efe sydd yn ei gusanu : nid cusan trwy dalu am dano oedd, nage : nid modrwy am dâl, nid gwerthu'r wisg oreu y wnaeth y Tad i'r mab afradlon ; ond cusan, modrwy, 'sgidiau, am ddim oeddent ; y wisg oreu a'r llo pasgedig heb un ddimai o dâl oeddent. Dywedwch fod y Tad wedi derbyn tâl am ei garedigrwydd i'w fab anhapus, a chwi spwylwch y cyfan : talwch am y wisg oreu a'r esgidiau, ac yn lle cariad Tad yr wyf yn gweled awydd y merchant wedi'n ; ac y mae'r ddameg fwyaf ardderchog a luniodd doethineb a chariad erioed, yn colli ei gwerth a'i godidawgrwydd. Ond diolch i Dduw nid oes son am dâl yn y ddameg ardderchog, gyffröus yma ; ond Tad, yn lle gwneuthur *job* o ddychweliad ei fab, sydd a'i gariad yn neidio dros ben pob anheilyngdod yn ei fab, yn maddeu'r cyfan yn rhad, YN RHAD, gyfeillion anwyl ! O'r olygfa gyffröus, gweled brenhin yn cofleidio *beggar* ! Pwy all edrych arni heb golli dagrau ? Yn enwedig pan y cofia mai ef ei hun yw'r *beggar* sydd yn cael y fath anrhydedd. I ble mae'r Iesu yn ein dwyn ni yn y ddammeg hon ? Dywedwch gyfeillion, i ble ? Ai nid at Dad heb ei fath ? O ïe, Tad yw'r brenhin a'i fab yw'r *beggar*, a thyna pam yr aeth hi yn gofleidio, yn gusanu, yn wledda rhyngddynt. Diolch i Dduw, *dyma'r* Tad sydd gan y Cristion. Gwir ynte ddywedodd Crist, " Nid oes neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi." Gwir, mae'n eithaf gwir. Nid oes neb erioed wedi rhoddi'r fath olwg a hyn ar Dduw, ond mab y saer.

(I'w orphen yn ein nesaf.)

YMSON Y BARDD,

Ar derfyn y ddeugeinfed flwyddyn o'i oedran.

Mor gyflym a gwenol y gwŷdd,
Ymlithrodd blynyddoedd fy oes:
Prin cefais adnabod fy nydd,
Nad wele'r *ddeugeinfed* a ffoes!
Ac nid ewyllysgar ychwaith,
Y credwn fy nyfod mor hen,
Pe ni bai tystiolaeth ddiymwad o'r ffaith,
I'w gweled ar goryn a gên.

Fal ddoe i mi gofio pan gawn
Fy *ugain*, mor ysgawn fy nhroed,
O nwyfiant a lloniant mor llawn—
Ond wele! wyf *ddeugain* mlwydd oed!
Bu imi gyfoedion, a faent
Yn nerthol a gwrol eu gwedd,
Na mi yn iachusach—b'le mwyach y maent?
Er's meithion flynyddau'n y bedd!

Ragluniaeth! dirgelwch i gyd
Yw troion d'olwynion di lais,
Nis gellir rhagweled dy fryd
Am foment, er cymaint yw'r cais;
Ychydig flynyddoedd gaent *hwy*,
Am hyny, mae'n amlwg iawn im',
Wrth ganfod fy arbed o glefyd neu glwy'
Na roed i *mi* ddeugain am ddim.

Dyledus fy niolch i'm Naf,
Am estyn fy nhymor i'n hwy;
Pob mynyd ac enyd a gaf,
Sy'n chwyddo 'ngofynion yn fwy;
Llesmeiriaf! mi welaf 'r wy'n wan—
I'w gariad, ad-daliad nid oes,
Ond byw i ryglyddu ei roddion i'm rhan,
A'i foli â'r anadl a roes.

Ond ow! mor bruddglwyfus yw 'mron,
Wrth gofio am wanwyn fy oes;
Pan oedd fy awyrgylch, o'r bron,
Heb gwmwl, nac awel yn groes;
Pan d'wynai'r brialli a'r rhôs
Fal llygaid angylion, i'm bryd;
Fy nyddiau'n ddedwyddwch, a thrwm-gwsg y nos
Yn arlun o geinion i gyd.

Mae llwybrau'm maboliaeth bob un,
Yn cyndyn ymlynu'n y cof;
'Does bellach, mor brydferth eu llun,
Ddim llwybrau'n bodoli, lle trof;
Ac nid ydyw gwyrdd-ddail yr allt,
Mor ddwfn ac adlonol eu ffriw,
Na'r rhosyn, oddiar pan y gwynodd y gwallt,
Yn haner mor brydferth ei liw.

Yn nghân yr ehedydd fach lon,
Rhyw haner swynoldeb sy'n awr,
O'i chlywed ar lechwedd y fron,
Ni bydd fy nifyrwch yn fawr,
Nes, wrth fy adgofio, fod gynt
Ehedydd wefreiddiai fy nghlyw;
I flwyddau maboliaeth dychwelaf ar hynt,
Ac ynddynt mor foddus ail fyw!

Bryd hyn, ni freuddwydiwn am dwyll,
Ond credwn y byd *ar ei air;*
Gwers chwerw a ddysgais gan bwyll;
'Nad *pob* rhyw ddisgleirdeb sy'n *aur;*'
Do, fe'm argyhoeddwyd yn deg,
Fod amryw wendidau mewn dyn:
A chefais—ow finau!—fod brychau a brêg,
Yn llechu'n fy nghalon fy hun.

Yn blentyn, mi gredwn heb feth
Y cwrddai, ar gopa'r bryn draw,
Y ddaear a'r wybren yn mhleth,
Cawn yno ei theimlo a'm llaw;
Ce's brawf—canys dringais y bryn,
Mai'n mhellach y cwrddent ynghyd;
Ac fe'm argyhoeddwyd gan reswm, cyn hyn,
Mai twyll oedd y cyfan i gyd.

Ond glyna'n y gobaith yn awr
Ryw eilun o'r dyb, er mor wael,
Fod hufen dedwyddwch y llawr
Ym mru y dyfodol i'w gael;
Ond fel daw'r dyfodol ger bron,
Dedwyddwch yn mhellach a ffŷ;
A phob siomedigaeth, dan glwyfo fy mron,
Fy nghred i anobaith a drŷ.

Efelly, *aeth* bore fy nydd,
Yn llwyr a diadfer i ffwrdd;
Argraffwyd y nawn ar fy ngrudd;
Carlama yr hwyr ddydd i 'nghwrdd!
Os mwyniant ehedodd ym mhell,
Daeth profiad a gwerth gydag e',
Os blodau fy nhymor wywasant—bid gwell
Y ffrwythau'n aeddfedu'n eu lle.

Brynamman, Mai 1af, 1862.

D. L. Moses.

Y PURITANIAID.

(Parhad o tudal. 104.)

Rhif. II.

Ar farwolaeth Harri VIII., yn y flwyddyn 1547, yr oedd lle i obeithio am helaethach diwygiad mewn crefydd nag a allesid ei ddisgwyl o'r blaen. Yr oedd yr 16 bennaethiaid, y rhai a gyfansoddent y Cynghor a appwyntiwyd gan y Brenin Harri i arolygu'r deyrnas hyd nes delai ei fab, Edward VI, i'w oedran, oll o honynt yn ddiwygwyr proffesedig. Y weithred gyntaf a wnaeth y Cynghor yma oedd dewis Duc Somerset (ewythr y Brenin ieuanc, brawd ei fam), i fod yn Amddiffynwr *(Protector)* y deyrnas, a'i gynnysgaeddu â'r awdurdod brenhinol. Yr oedd tueddiadau'r Duc a'i olygiadau ynghylch crefydd eisioes yn adnabyddus i lawer. Ond wedi ei appwyntio i'r prif awdurdod, ni phetrusodd i gyhoeddi ei fwriadau i "ddiwygio holl lygriadau yr hen grefydd, a dwyn i mewn yn fwy perffaith yr athrawiaethau a bregethid gan Luther a'r diwygwyr." Mor gynted ag y cyfarfu y Senedd cafodd "Cyfraith y Chwech Erthygl" a chyfreithiau eraill ag oeddent yn niweidiol i'r diwygwyr eu diddymu. Gosodwyd amryw drefniadau pwysig ar droed, er diogelu a helaethu y mudiad diwygiadol, ac er sicrhau (pe gellid) gydymffurfiaeth mewn crefydd, heb ymgynghori â'r Senedd nac â'r wlad. Teimlai y rhan amlaf o'r bobl, a dichon o'r offeiriaid hefyd, naill ai yn ffafriol i'r hen grefydd, neu ynte yn ddiofal ynghylch y matter. Fel prawf o hyn gellir cyfeirio at y nifer bychan o'r offeiriaid a ddarfu roddi i fynu eu swyddau eglwysig ar y dychweliad at Babyddiaeth pan ddaeth y Frenhines Mary i'r orsedd, a chwedi'n ar ail-sefydliad Protestaniaeth dan y Frenhines Elisabeth.

Yr oedd amryw o bennaethiad y wlad wedi ymgyfoethogi yn ddirfawr ar yspail y mynachlogydd Pabaidd, trwy brynu eu tiroedd gan y Brenin Harri am brisoedd isel iawn, a gwyddent yn dda na byddai eu meddiannau newydd yn ddiogel iddynt pe dychwelid yr hen grefydd i awdurdod. Ac yr oedd eu gallu a'u dylanwad yn y wladwriaeth yn gyfattebol i'r sêl a ddygent dros y diwygiad. Dangoswyd hyn trwy eu gwaith yn gallu yn bur hawdd ddodi i lawr y terfysgoedd a gyfodwyd ar y pryd hwn, mewn gwahanol ranau o'r deyrnas, o achos y cyfnewidiadau ar grefydd. Eu gofal penaf oedd gosod i fynu sefydliad ag a fyddai i gadw allan Pabyddiaeth, ac ar yr un pryd i sicrhau tawelwch y wlad. Ond yr oedd yn ddiau nifer lluosog o Brotestaniaid cywir—dynion goleuedig a didwyll—y rhai a ddymunent ac a geisient ddwyn ymlaen a sefydlu gwir ddiwygiad oddiwrth lygreddau Pabyddiaeth. Ychwanegwyd yn ddirfawr at nifer a sêl y cyfryw dan deyrnasiad byr Edward VI. Fel y gellid disgwyl, yr oedd y dynion hyn gyda eu mawr sêl a'u cywirdeb anwadadwy, yn methu cydweled ynghylch y mesurau cymhwys tuag at adferyd a sefydlu y wir grefydd yn Lloegr. Gyda dwyn oddiamgylch yr hyn a allent er cyrhaeddyd eu hamcanion, teimlai y rhai oeddent mewn awdurdod ei bod yn ofynol iddynt beidio cynnyg diwygiadau a fyddent yn annerbyniol neu yn anoddefol gan y wlad. Eraill, nad oeddent yn meddu ar gydwybodau ystwyth, a wrthwynebent hyn. Achosodd hyn yma gryn ddadleuaeth, yr hyn, yn y pendraw, a weithiodd i ddiben da. Y mae yn wir, ddarfod i'r trefniadau a wnaed, dan lywyddiad Cranmer ac eraill, yn nheyrnasiad Edward VI. gael eu llwyr ddiddymu, a pharhau i fod yn llyth-

yren farw am y chwe' mlynedd o deyrnasiad y Frenhines Mary; ond yn gymmaint ag iddynt gael eu hadferyd ar ddyfodiad Elisabeth i'r orsedd, ac eu bod, yn sylweddol, mewn grym ac awdurdod yn ein dyddiau ni, ymddengys y byddai yn dra chymhwys i'n testun, i ni gymmeryd peth sylw o honynt. Dyma'r pryd y cyfansoddwyd y Llyfr Gweddi Gyffredin—dyma'r pryd y sefydlwyd y "Namyn un deugain Erthyglau Crefydd"—cyfnod i ba un y mae Eglwys Loegr yn hoffi olrhain ei hanes.

Un o'r pethau cyntaf a wnaethpwyd gan gynghorwyr Edward VI. ydoedd trefnu ymweliad cyffredinol o'r holl eglwysi trwy Gymru a Lloegr; a gorchymynwyd na phregethai neb allan o eglwys ei blwyf nes y byddai yr ymweliad drosodd. I'r diben hyn rhanwyd y deyrnas yn chwech o gylchoedd, a threfnwyd i ddau foneddwr cyfrifol a deallus, gyda chyfreithiwr ac ysgrifenydd, ac un difeinydd i fyned trwy bob cylch. Dewiswyd Ridley a Farrar a phedwar eraill, y rhai oeddent bregethwyr galluog a phoblogaidd, i fod yn ymwelwyr, un yn mhob cylch, i'r diben i annerch y bobl a'u hyfforddi yn athrawiaethau y diwygiad, a'u dwyn ymaith oddiwrth eu hen goel-grefydd. Darfu yr Archesgob Cranmer, hefyd, argraffu llyfr o homiliau neu bregethau ar brif byngciau y grefydd Grist'nogol, a gorchymynodd i'r ymwelwyr adael un o'r llyfrau hyny gyda phob offeiriad plwyf, gan nad oedd, dywedir, ond ychydig o offeiriaid, y pryd hyny, yn arfer neu yn medru pregethu. Yr oedd yr ymwelwyr hefyd, yn enw y Brenin, "i orchymyn i'r holl offeiriaid i osod Beibl yn eu heglwysi, ac i'w ddarllen i'r bobl, i symud ymaith yr holl ddelwau a phethau coel-grefyddol eraill o'r eglwysi, i roddi y gwin gyda y bara yn y Swper Sanctaidd; i fod yn ddifrycheulyd yn eu hymddygiad, ac yn ddiwyd i annog eu pobl i sancteiddio y Sabbath, ac i fod yn helaeth yn mhob gweithred dda." Cydsyniodd y rhan fwyaf o'r esgobion a'r offeiriaid â'r gorchymynion hyn. Ond gwrthododd dau o'r esgobion, Gardiner a Bonner, gydsynio; ac oblegid eu hanufudd-dod, cawsant eu taflu yn ngharchar. Yr oedd yr ymweliad pwysig hwn wedi myned drosodd cyn i'r Senedd gyfarfod.

Y mae y gwaith o lunio a sefydlu y Llyfr Gweddi Gyffredin, a'r "Namyn un deugain Erthyglau Crefydd," yr hyn a gyflawnwyd dan deyrnasiad Edward VI., yn galw am sylw neillduol mewn perthynas â'r testun mewn llaw—y Puritaniaid. Ni thyciodd y gwrthwynebiad a wnaed iddynt ar y pryd hwn. Ond maes o law daeth trefniadau a gofynion y Llyfr Gweddi Gyffredin i fod yn brif destun dadl rhwng y Puritaniaid a'u gwrthwynebwyr. Ac megys yr oedd yn y dechreuad, parhaodd i fod yn rhwystr ac yn dramgwydd iddynt trwy genedlaethau a therfysgoedd, i lawr at dröad y "Ddwy fil" allan o'r Eglwys Wladwriaethol yn 1662, ac wedi hyny i'w holynwyr hwy, ac y mae yr awr hon, ac y bydd yn debyg o barhau hyd nes gwawrio rhyw amser gwell nag y mae argoelion presenol yn arddangos.

Darfu yr Arglwydd Chatham ddangos yn bur gywir nodweddiad yr Eglwys Wladwriaethol, yn y geiriau a lefarodd, tua chan mlynedd yn ôl, y rhai sydd yn ddiau yn adnabyddus i lawer o'n darllenwyr. "*We have a Popish Liturgy, a Calvinistic Creed, and an Arminian Clergy.*"

Am Galfinyddiaeth y Gredo, fel ei gosodir allan yn y "Namyn un deugain Erthygl," nid oes lawer o le i ammheuaeth; nid oedd y Puritaniaid yn wrthwynebol i hyny: yr oeddent yn Galfiniaid selog yn mron i gyd. Ac am Arminiaeth yr offeiriaid yn amser Arglwydd Chatham, nid yw yn perthyn i'n pwngc i ni ddywedyd dim. Ond y mae yn ddigon adnabyddus

fod llawer o'r offeiriaid yn bresennol, a'r rhai hyny gyda'r mwyaf deallus, (heb sôn yn awr am eu tanysgrifiad) yn ystyried ac yn credu fod yr Erthyglau cyfeiriedig yn fwy cyttunol â Chalfiniaeth nag y maent â rheswm ac Ysgrythyr. Ond nid yw hyny gymmaint i'n pwrpas yn presennol. Y peth a alwai Arglwydd Chatham "*Popish Liturgy*"—dyna ydoedd y maen tramgwydd i'r Puritaniaid.

Am Babeidd-dra y Llyfr Gweddi Gyffredin, y mae yn ddigon i sylwi iddo gael ei dynu allan o'r ffurf-wasanaeth a arferid yn Eglwys Rhufain, (pe gwaeth o hyny), ond gyda chymaint o welliadau a chyfnewidiadau ag a welwyd yn gymhwys gan yr Archesgob Cranmer a'i gyd-gynghorwyr. Cofier hefyd mai mewn iaith nad oedd y bobl yn ei deall—yn Lladin—y darllenid gwasanaeth yr eglwys cyn amser y diwygiad. Ac fel rheswm ychwanegol dros gyfansoddi Llyfr Gweddi Gyffredin, dywedir yn y rhagymadrodd fel y canlyn: "A lle bu cyn hyn amrywiaeth mawr wrth ddywedyd a chanu yn yr eglwysi o fewn y Deyrnas hon, rhai yn canlyn Arfer *Salisbury*, rhai Arfer *Henffordd*, rhai Arfer *Bangor*, rhai Arfer *Efrawg*, a rhai eraill Arfer *Lincoln*: yn awr o hyn allan ni bydd i'r holl Deyrnas ond un Arfer."

Cyflawnwyd hyn o orchwyl gan yr Archesgob Cranmer, Esgob Ridley, a deuddeg eraill y rhai a bennodwyd gan y Brenin a'i gynghor. Oddiar y pryd hyny hyd yn awr, y mae cryn amrywiaeth opiniynau wedi bod ynghylch teilyngdod a chymhwysder y cyfansoddiad. Yn ôl yr awdurdodau sydd yn ei bleidio, "Doethineb Eglwys *Loegr*, er pan gyntaf cynlluniwyd iddi Liturgy cyhoedd, ydoedd, *cadw cyfrwng y ddau eithaf*, na byddai rŷ syrth i wrthod, na rhŷ hyblyg i oddef cyfnewid." Y Puritaniaid a'u holynwyr o'r tu arall, a wrthddadleuent i fod hyny yn wall ac yn ddiffyg yn y cyfansoddiad dan sylw, sef ei fod "yn cadw cyfrwng y ddau eithaf:" hyny yw, ei fod yn ormod *yn y canol* rhwng Pabyddiaeth ar un llaw a gwir Brotestaniaeth, neu symlrwydd addoliad Crist'nogol, ar y llaw arall.

Pa fodd bynag, pan ymddangosodd y Llyfr Gweddi Gyffredin, bu yn achos tramgwydd i lawer o'r diwygwyr mwyaf selog a deallus; a dywedir (*Burnet's Hist. Ref.*, *Neal's Hist. Purit.*) i rai hyd yn oed o'r esgobion wrthdystio yn ei erbyn. Ond yr oedd y llywodraeth yn benderfynol i ddwyn i mewn a sefydlu cydymffurfiaeth mewn addoliad trwy yr holl eglwysi. Ac i'r diben hyn llwyddwyd i gael gan y Senedd i wneuthur cyfraith "i beri i'r offeiriaid, trwy yr holl deyrnas, i arferyd y Llyfr Gweddi Gyffredin yn eu heglwysi. A phwy bynag ni wnai hyny, y byddai iddo gael ei garcharu dros chwe' mis, a fforffedu elw ei bersonaeth dros flwyddyn, am y trosedd cyntaf; y byddai iddo gael blwyddyn o garchar a fforffedu ei holl elw eglwysig am yr ail drosedd; ac y byddai iddo gael ei garcharu dros ei holl fywyd am y trydydd trosedd."

Mewn perthynas â gweinyddiad y gyfraith hon a chyfreithiau eraill a luniwyd ar y pryd hwnw, yn yr un neu gyffelyb yspryd, gwneir sylwad neillduol o gymhwys gan Mr. Peter, yn ei "Hanes Crefydd, &c." "Er i'r diwygwyr, (medd Mr. P.,) ddyoddef llawer dan deyrnasiad Harri VIII., nid oeddent etto gwedi dysgu bod yn dirion wrth y rhai ag oedd yn gwahanu oddiwrthynt mewn barn. Cafodd rhai eu carcharu, ac eraill eu llosgi gan y diwygwyr eu hunain, oblegid nad oeddent yn cydweled â hwynt yn mhob peth." Yr oedd gan Dduw, yn ei ragluniaeth, wersi pwysig, ond caled y chwerw iawn, etto i ddysgu iddynt hwy ac i'r byd. Yr oedd profed-

igaethau tanllyd yn eu haros hwythau, y rhai oeddent yn cyflym nesâu, ac yn awr megys wrth y drws.

Pa fodd bynag, yn ngwyneb llawer o ddigalondid ar amryw ystyriaethau, aeth Cranmer a'r rhai a gydweithient âg ef ymlaen yn benderfynol gyda'r cyfnewidiadau diwygiadol a gymerasent arnynt i ddwyn oddiamgylch ac i'w sefydlu yn y wladwriaeth. Yn 1550 rhoddwyd rhyddid i'r offeiriaid i briodi, a bu llawer o ddadleu ynghylch traws-sylweddiad a phyngciau eraill; cafodd yr allorau yn yr eglwysi eu tynu i lawr, a byrddau cymmundeb eu gosod yn eu lle, a diddymwyd rhai pethau coel-grefyddol eraill. Ac yn y flwyddyn ganlynol aethpwyd ymlaen at y gwaith mwy pwysig fyth, o ddiwygio athrawiaethau yr eglwys a sefydlu erthyglau crefydd. Dyma ddechreuad y "Namyn un deugain Erthygl Crefydd." Ymddiriedwyd y gorchwyl tra phwysig i Archesgob Cranmer, ac Esgob Ridley. A hwy a ffurfiasant ddau erthygl a deugain, ar brif byngciau y grefydd Grist'nogol. Cyfnewidiwyd rhyw ychydig ar rai o'r erthyglau hyn yn amser y Frenhines Elisabeth, a lleihâwyd hwynt i 39, fel y maent yn bresennol yn Eglwys Loegr.

Ar y cyfan, gyda golwg ar y diwygiad a gafodd ei ddwyn ymlaen yn nheyrnasiad Edward VI., rhaid i ni ddywedyd gyda Neal, *(Hist. Purit.)*, mai hyfdra i'w ryfeddu ydoedd i ychydig o esgobion a chynghorwyr y Brenin i gymmeryd arnynt y gorchwyl o gyfnewid crefydd y deyrnas, yn unig trwy awdurdod uchafiaeth *(supremacy)* brenin dan oed, heb gydsyniad y bobl yn y Senedd, na chymmanfa o offeiriaid. Ond dyma'r modd, cofier, y sylfaenwyd ac y sefydlwyd trefn gwasanaeth ac erthyglau ein heglwys wladwriaethol. Nid yw eu hynafiaeth, gan nad maint yr ymffrostir ynddo, ddim yn cyrhaedd yn ôl yn mhellach nag i'r cyfnod hwn, a'r amgylchiadau sydd wedi bod dan ein sylw. Yr oedd pob tebygolrwydd y buasai Cranmer a'i gydweithwyr, pe caniattëid hyny gan amgylchiadau yr amseroedd, i geisio dwyn ymlaen y diwygiad yn mhellach nag y gwnaethant. Ond, er eu siomedigaeth a'u galar, bu Edward VI. farw, pan oedd ond un ar bymtheg oed, a daeth Mary ei chwaer, yr hon oedd babyddes benboeth, i deyrnasu yn ei le ef.

Ar ddyfodiad Mary i'r orsedd, fel y buasid yn ei ofni, llwyddwyd, gyda chydsyniad y Senedd, i ddymchwelyd gwaith y diwygiad, mor bell ag i adferyd yr hen grefydd i awdurdod. Cyfrifir agos i thri chant o ferthyron, pa rai yn ystod ei theyrnasiad—llai na chwe' mlynedd—a losgwyd oherwydd eu Protestaniaeth; ac yn eu plith Cranmer, Ridley, Hooper, Latimer, a Farrar. Ond darfu nifer mawr o'r diwygwyr, pan welsant fod yr ystorm yn casglu, gymmeryd rhybudd. Penderfynasant i ymadael â gwlad eu genedigaeth. A phan y rhoddwyd gorchymyn fod i'r dieithriaid Protestanaidd oll i fyned allan o'r deyrnas, aeth yn nghylch wyth cant o ddiwygwyr Lloegr gyda hwynt; pa rai a sefydlasant dros deyrnasiad Mary mewn amrywiol leoedd yn Holland, Germany, a Switzerland.

Dynion crefyddol dros ben oedd yr alltudion hyn. Ac ni bu y profiad newydd yr aethant trwyddo, a'r dadleuon a'r ymddiddanion a gawsant yn nghylch athrawiaethau ac ordinhadau crefydd, yn ystod y chwe' mlynedd o alltudiad, ddim heb adael effeithiau neillduol ar eu meddyliau a'u nodweddiad yn ôl llaw. Wedi eu dychweliad adre, ar adsefydliad Protestaniaeth yn nheyrnasiad Elisabeth, ac yn ddiau trwy eu dylanwad a'u esiampl hwy, y daeth y blaid honno i ennill sylw'r cyhoedd trwy y mawr sêl a ddangosent dros burdeb crefydd, ac a ddaethant i fod yn fwy fwy adnabyddus dan yr

RHYFEDDODAU YR AIPHT.

Llythyr III.

Teml Carnak.—Y mae yr Aipht yn nodedig neillduol hefyd am ei themlau. Y rhai hyn yn nesaf ar ol y pyramidiau sydd yn dwyn yr arwyddion amlycaf o fedrusrwydd y cyndrigolion yn y gelfyddyd o adeiladwaith.

Ac mor aml oedd y gweddillion o'r unrhyw yn y wlad, yn enwedig tua'r canol a'r parth uchaf, fel y parasant i Denon lefain allan, "Temlau eto! temlau o hyd! dim caerau, dim llongbyrth, dim pontydd, dim ymdrochfeydd, dim chwareudai." Ac am y temlau hyny, dywed y Dr. Edward Daniel Clarke, eu bod holl mor unffurf o ran eu dull a threfn eu hadeiladaeth, fel y mae dysgrifiad o un yn ddigon i alluogi y darllenydd i ffurfio meddylddrych lled gywir am y cwbl oddieithr eu bod yn gwahaniaethu o ran maintioli.

I arwain i mewn i'r llanerch gyssegredig, lle y byddo teml yn sefyll, ceir ffordd neu fynedfa ëang, wedi ei phalmantu, yn nghylch can troedfedd o led, ac o dri i bedwar cant o hyd, ac ychwaneg mewn rhai manau. Y fynedfa hon a elwir y *Dromos*, ac o bob tu iddi o'r naill ben i'r llall, y mae math o ddelwau o'r dull a ddisgrifiwyd eisioes dan yr enw Sphinx yn sefyll tua 30 troedfedd oddiwrth eu gilydd.

Ar ol pasio y rhai hyn deuir at yr hyn a elwir Propylæum, yn cynnwys dau byramid heb fod yn bollol flaen-feinion rhwng y rhai y mae y porth cyntaf sydd yn arwain i'r deml; ac ar ol hwnw deuir at ail borth, a thrydydd drachefn; canys nid oes un reol sefydledig i benderfynu rhifedi y pyrth na'r delwau Sphinx; y mae hyny yn ymddibynu a'r hyd a lled y *dromos*. Ar ol myned drwy y propylæum, neu y pyrth, yr ydys yn cyrhaedd i'r deml ei hun, i ba un y mae yn wastad fath o rodfa golofnog *(piazza)* hardd a helaeth, a delwgell *(sekos)* o faintioli cymmedrol ond heb un ddelw ynddi, neu o'r hyn lleiaf heb yr un ar ddull dynol, eithr rhyw gynddrych o greadur anifeilaidd.

O bob tu i'r rhodfa grybwylledig y mae ystafelloedd ystlysol o uchder cyfartal, yn culhau yn raddol o'r gwaelod i fynu. Y mae muriau y temlau wedi eu haddurno a lluniau cerfiedig mawrion o amrywiol ddulliau.

Y gweddillion o deml Carnak sydd wedi ennill sylw ymdeithwyr yn arbenig. Y deml hon a safai yn nghylch milltir oddiwrth y lan ddwyreiniol o'r afon Nilus. Wrth nesâu ati ar hyd y fynedfa *(dromos)* yr ydys yn dyfod at amrywiol byrth mawrion, y naill ar ol y llall—pob un wedi ei addurno a cherf-ddelwau o'r gwaith cywreiniaf. Mae y prif borth, yr hwn sydd yn wynebu tua'r afon, yn 64 troedfedd o uchder.

O'r ddau tu i'r porth yma yr oedd gynt ddau ddrws, dywedir, un o du y gogledd, a'r llall o du y deheu, yn arwain i gyntedd ëang ag iddo ddwy res o golofnau; a rhes ddwbl o rai tàlach yn rhedeg drwy y canol, ac yn terfynu gyferbyn a dwy ddelw o faintioli aruthrol, un o bob ochr i res o risiau, saith a'r ugain o nifer, yn arwain i lawr i Neuadd Fawr Carnak. Y neuadd ryfeddol hon, oherwydd ei hynodrwydd digyffelyb, sydd wedi bod yn destyn sylwadau pob awdwr braidd a ysgrifenodd yn nghylch hynafiaethau yr Aipht.

Y mae ei mesuriad arwynebol yn 314 troedfedd wrth 164. Ei nen ddwysdrom o faenwaith a gynnelir gan 134 o golofnau, yn ddosbarthedig i un ar bymtheg o resi, a'r rhan fwyaf o'r colofnau yn naw troedfedd o drawsfesur, ac yn agos i 43 troedfedd o daldra; y rhai yn y ddwy res ganol nid

ydynt lai nag un droedfedd ar ddeg a hanner o drawsfesur, a 73 o daldra; a thrawsfesur eu coronwaith yn y pen uchaf yn 22 troedfedd.

Y muriau oll, y colofnau, y trawstiau, y nenau a phob gwyneb gweledig i'r llygaid, ydynt wedi eu gorfritho a cherfiadau—duwiau, gwroniaid, a gwahanol arwyddluniau—y cwbl ar y cyntaf wedi eu harddwychu a'r lliwiau bywiocaf.

Ond nid oedd y neuadd golofnog uchod ond un rhan o hynodion y deml fawrwych dan sylw. Y mae y gweddillion o dyrau cedyrn, adeil-ranau pedryal neuaddau, colofnau gwenithfaen, a'r pentyrau aruthrol o faen saerniaeth sydd etto yn aros, wedi eu hanner gladdu mewn pridd a thywod, yn dangos yn amlwg fod yr adeilad pan yn gyfan, uwchlaw 1,200 troedfedd o hyd. Ac yr oedd rhodfa gyda rhes o Sphinxes mawrion o bob tu iddi, yn arwain o'r deml hon hyd i Luxor, pellder nemawr llai na milltir a hanner; yr hon a allasai fod yn gyfleus iawn fel lle i arddangos coegwychder gorymdeithiau crefyddol.

Am y dull *(style)* cyssefin o adeiladu yn yr Aipht, dywed Syr J. Gardner Wilkinson ei fod yn un o ran egwyddorion a nodweddiad o'i ddechreuad (dwy ganrif ar bymtheg cyn cred) hyd ei ddiflaniad yn nechreuad Cristionogaeth; er yn ddiammeu ddarfod i amryw ddiwygiadau ac addurniadan gael eu dwyn i mewn yn ystod amseroedd diweddarach. Un o nodweddiadau arbenig yr hen ddull oedd yr arferiad o gulhau yr adeiladau fel y byddent yn esgyn i fynu yn ol y dull pyramidaidd. A barnai Wilkinson ddarfod i hyn ddechreu gyda'r hen arferiad gyntefig o wneud anneddau o'r corsenau, y rhai yr oedd y fath amledd o honynt yn tyfu ar lanau yr afon Nilus, Ac yn wir y mae y cerfiadau ar golofnau wedi eu gwneud yn ol un o'r dulliau Pharoaidd yn rhoi lle i gasglu eu bod yn cyfeirio at yr hen-byst cyntefig a wneid o gorsenau.

Pan fyddai adeiladau uchel yn cael eu gwneyd a chorsenau, y mae yn amlwg fod yn angenrheidiol iddynt ogwyddo y naill at y llall, ac felly ar osgo tuag i mewn, ac o ganlyniad byddai yr adeilad yn rhwym o gulhau ar i fynu yn debyg i byramid fel y crybwyllwyd. Y mae yn ymddangos hefyd fod dull cyffredinol temlau yr Aipht wedi cael eu achlysuro drwy yr arferiad o chwanegu darnau newyddion o bryd i bryd nes i'r darn cyssefin o'r diwedd ymddangos yn ddim amgen na chnewllyn y cwbl. Y cyntaf peth fyddai porth—adail mawr yn gynnwysedig o ddau dŵr cadarn o waith maen, a mynedfa i mewn rhyngddynt, yr hyn a amcenid er mwyn peri mwy o edmygedd wrth nesâu at y lle.

Yma y mae yn naturiol gofyn a ydyw Aipht y Beibl yr un ag Aipht y cofgolofnau a'r beddrodau? A ydyw yr ystafell Aiphtaidd yn y *British Museum* a'r arwyddluniau sydd ar y saerniaeth aruthrol, am yr hwn y dywedai Napoleon Buonoparte wrth ei filwyr, pan yn sefyll dan gysgod y Pyramidiau—"Filwyr! y mae deugain canrif yn edrych i lawr arnoch!"—yn cytuno â thystiolaeth Moses ac Esaiah? Os felly, dyma brawf annibynol fod hanesiaeth y Beibl yn gredadwy.

Cellan. I. Glan Teifi.

Nid oes dim yn dangos anwybodaeth mwy o hanes yr Eglwys, ac o hanes dynolryw, nid oes dim yn addasach i wneyd y deall yn eiddil, ac i gario yr hil yn ol i anwaredd, na'r meddwl nad oes genym ddim i'w ddysgu, fod Cristionogaeth wedi d'od i lawr i ni yn bur a pherffaith, ac mai ein hunig ddyledswydd yw derbyn gwersi ein catecismau yn ddiymholiad.

HYNAFIAETHAU CYMREIG.—IOLO MSS.

DOSPARTH TEYRNEDD RHODRI MAWR.*

Brenin Penrhaith; Brenin a ddodid yn benn ar y Breninoedd eraill, a'i air ef yn air ar eu gair hwy, ag ar air pob un o honynt, a'r Brenin a geffid yn ddoethaf ag yn wrolaf o'r holl Frenhinoedd a ddodid yn Benn Rhaith, ag ar hwnnw ydd oedd Braint Tywysogaeth ar holl Ynys Prydain a'i holl Frenhinoedd.

Gwraig Rhodri Mawr oedd Angharad ferch Meyryg ab Dyfnwal, ab Arthen, ab Seisyllt Brenin Dyfed a Cheredigion, ag iddynt y bu pedwar o blant, sef merch a elwid Elen yr honn oedd hynaf oll, a hi a fu briod a Morgan Hen Brenin Morganwg a Thywysawg o Bont Gaerloyw hyd afon Tywi.

Tri meibion oedd i Rodri Mawr. sef yr hynaf o honynt Cadell Brenin Dyfed a Cheredigion; Ail oedd Anarawd Brenin Gwynedd; Trydydd Merfyn Brenin Pywys.

Bu hefyd i Rodri, o'i gariadwragedd, bum mab. sef Rhodri Goch ab Rhodri Mawr. a Meyryg, ag Eidwal, a Gwyriad, a Gathelig: a dwy ferch, sef Elgain a Chreirwy; a phan oedd Crist yn ddeuddeg a thrugain ag wyth cant y lladdwyd Rhodri Mawr gan y Saeson yn Ynys Fon a chydag ef ei fab Gwyriad, a hefyd Rhydderch ail fab Morgan Hen Tywysog Morganwg, ag ef yn bumtheg oed yn rhyfela gyda ei Dad y cu. sef Rhodri Mawr.

Llyma fal y rhannodd Rhodri Mawr ei gyfoeth rhwng ei dri meibion,

Cadell y mab hynaf a gafas Dalaith Dinefwr, sef Dyfed a Cheredigion dan eu terfynau, ag iddaw Deyrnwialen y Dywysogaeth. canys i'r hynaf o'r Tri Brenhinoedd Gwlad Gymru y dylid hynny. Pencyfeistedd Dyfed a Cheredigion, Caerfyrddin.

Anarawd yr ail fab a gafas Wynedd dan ei therfynau, ag yn Aberffraw'r Pencyfeistedd. Rhai llyfrai a ddywedant mai'r trydydd sef y Ieuangaf o'r meibion oedd Anarawd.

Merfyn y Trydydd mab a gafas Dalaith Mathrafal, sef holl Bywys dan ei therfynau a'r Pencyfeistedd oedd ym Mhen Gwern Pywys, sef y Mwythig.

Llyma fal y trefnwys Rhodri Mawr lle ceffid ymryson rhwng neb rhai o'r Tair Talaith, er Barn a therfyn yr ymryson.

Os bydd ymryson rhwng Talaith Dinefwr a Thalaith y Berffraw ym Mon, ym Mwlch y Pawl yng Nglann Dyfi y dylai fod yr Eisteddfa, a Brenin Pywys yn Benn Rhaith a Barn.

Os bydd ymryson rhwng Talaith Mathrafael a Thalaith Dinefwr, yn y Rhyd Helig ar Wy y dylai fod yr Eisteddfa, a Brenin Gwynedd yn Benn Rhaith a Barn.

O bydd ymryson rhwng Talaith Mathrafal a Thalaith y Berffraw ym Mon, yn Nol yr Hunedd yn Iâl y dylai fod yr Eisteddfa a Brenin Dinefwr yn Ben Rhaith a Barn.

A pha le bynnag y byddai'r Eisteddfa, bid yno Deyrnedd y Tair Talaith. sef. ydynt,

Teyrnedd Dinefwr. Brenin, Arlwyddi Llys a Gorsedd, a Gwlad, sef yw Gwlad, Perchennyddion Tir gan eu Pencenedloedd.

* O Lyfr Thomas Hopcin Llangrallo.

Teyrnedd y Berffraw, Brenin, Pymtheg Llwyth Gwynedd gan eu Pencenedloedd. ag Yngnaid Llys.

Teyrnedd Mathrafal, Brenin, Gwelygorddau Pywys gan Bencedloedd, ag Yngnaid Llys.

Teyrnedd Cymru Benbaladar yr Hynaf o'r Tri Thywysawg Taleithiawg, Brenhinoedd Gorseddog a'u Cyffon Teyrnedd, sef yw Cyff Teyrnedd y peth y wnelir o honaw y Deyrnedd yn berffaith. ag nid unrhyw Cyff Teyrnedd, ym mhob un o'r Tair Talaith; eithr mal y dangoswyd eisioes.

Braint Teyrnedd Cymru Benbaladr dewis y doethaf a'r Gwrolaf o'r Brenhinoedd a'i ddodi'n Ben Tywysawg ac yn Ben Rhaith ar holl Ynys Prydain.

Pencenedl yw'r Hynaf o lwyth Cenedl, a Gwelygordd o wr cyfallwy, a'i nawdd iddei genedl o lwyth a Gwelygordd hyd y nawfed ach ar hyd ag ar draws. Sef yw gwr Cyfallwy. na fytho nag ynfyd, na llesg anwrawl. na dall. na mud. na byddar. na chloff. nag anghyfiaith, nag yn Anwybodus nag anysgedig, ag na fytho Briod ag Estrones gynhenid, ag na fytho eneidfaddau, ag na fytho arno hawl galanas, na hawl sarhâd, ag nas ciliawdd yn Nydd brwydr ag ymladd, ag a wypo holl Ddefodau Teyrnedd Ynys Prydain a breiniau pob Cymro Cynhenid. ag a fo felly o hynafiaid Llwyth a Gwelygordd fe wedd iddo fod yn Bencenedl yng Ngorsedd Teyrnedd ag ym mhob Llys Gwlad a Chenedl, ag ym mhob Llys Barn a Chyfraith. a braint Tad iddaw ar bob amddifad o dad yn ei lwyth Cenedl a Gwelygordd. ag iawn iddaw geryddu a fytho ar y cam o'i lwyth ai genedl. ac nis tal sarhâd. a Braint i Bencenedl gynhyrfu Rhaith a Dygynnull Gwlad a Chenedl lle bo achos cyfreithiawl. ag nid oes a gae yn erbyn hynny. canys cysswllt Teyrnedd y sydd ar Bencenedl. ag attaw y mae pob cwyn am gam ag anghyfraith a wneler a neb un o'i genedl.

RHYFEL YN Y BYD, DAN LYWODRAETH DUW'R HEDDWCH.

Y MAE yn ddiddadl fod pethau eraill ag sydd yn annymunol, heblaw rhyfel, wedi ac yn cymeryd lle yn y byd lle'r y'm yn byw. Serch hyny nid ysgogir ein ffydd yn Nuw. A gobeithiwn y bydd i ni a'n darllenwyr gael y fraint, dan dob amgylchiad, o weled achos da a rheswm digonol, i gredu fod ein byd ni a'r bydoedd oll dan lywodraeth Bod o berffaith ddoethineb a pherffaith gariad. Gan nad beth am ddigwyddiadau annymunol, credwn na cheir byth un achos da i ddymuno fod y cyfreithiau naturiol a moesol yn wahanol i'r peth ydynt. Ac y mae'r ddaear a'i thrigolion oll, bob amser, dan lywodraeth y cyfreithiau hyn. Y mae'r sawl sydd yn deall y cyfreithiau hyn ac yn ufuddhau iddynt, yn cael eu diogelu a'u dedwyddu; a'u troseddwyr yn dyfod dan y gosp. Da y canodd Goronwy Owain,—

> "'Does dim nac yn na than y Nef,
> Nad Ef sydd yn ei beri:
> Ac Ef a roes, gwnaed dyn ei ran,
> Y cyfan er daioni."

Etto nid oes modd i wadu nad yw rhyfel yn ddrwg trwyadl—drwg ynddo ei hun—drwg etto yn yr achosion o hono—a drwg ac echryslon yn ei ganlyniadau—a'i nodweddiad yn gwbl eithriadol ac anifeilaidd. Rhaid addef mai golwg eithaf afresymol ydyw gweled dau ddyn, neu ddau lwyth neu

plwyf yn ymladd a'u gilydd â'u dyrnau neu â phastynau—rhesymoliaeth dynol, dros y pryd, wedi ei lwyr orchfygu gan anifeleidd-dra. A mwy echrus fyth yw gweled llwythau o ddynion a theyrnasoedd, gyda phob dyfais a darpariadau dinystriol, yn myned i ladd eu gilydd. Ond fel y mae gwaetha'r modd, dyma fel y mae wedi bod ar droion, ac yn parhau i fod hyd yr awrhon.

Ac edrych ynte ar ryfel fel drwg ag sy'n cyfodi oddiar ammherffeithrwydd dynoliaeth, ac anufudd-dod i ewyllys y Creawdwr, a gofynion ei gyfraith foesol; ac yn canfod mai drwg ydyw ag sydd fwy neu lai yn anocheladwy tra parhao dynion a'u llywodraethwyr i fod y peth ydynt: nis gallwn lai na sylwi ar yr un pryd, fod drygau eraill ar y ddaear ac yn ein plith, y rhai sydd yn waeth na rhyfel, a chymmaint yn waeth am mai hwynt hwy sydd yn achosi ac yn cynnal rhyfel a phob anghydfod. A oes eisiau nodi ac enwi y drygau hyn? Attebed sylw, profiad a chydwybod. Onid yw anwybodaeth a balchder crefyddol a phenboethni, wedi profi eu hunain lawer gwaith eu bod hwy o nifer y cyfryw? Ac onid yw trachwant a chenfigen, llid a digofaint, wedi bod bob amser yn cynnyrchu'r tanwydd i ennyn y fflam uffernol, a hynny yn mhob oes oddiar amser y llofruddiad cyntaf hyd y dydd hwn! Ac yn rhy aml, fel y mae yn alarus i ofyn, oni welwyd brâd ac anghyfiawnder a gormes wedi ymddyrchafu i'r fath rwysg fel nad oedd un drws o waredigaeth ond trwy ryfel a thywallt gwaed?

Ond symmuder yr achos—y drygau moesol a enwyd—a darfyddai yr effaith; darfyddai rhyfel yn y fan, ynghyd à phob anghydfod; a dim heb hyny. Pe bae heddwch cyffredinol trwy yr holl fyd i gael ei gyhoeddi y fory nesaf; pe bae sŵn yr *Armstrong guns* i gael eu dystewi am byth, a'r Merrimac a'r Monitor, a pheiriannau dinystriol o'r fath i gael eu suddo oll yn eigion y mor; a phe troid yr holl gleddyfau yn sychau, a'r bidogau a'r gwaewffyn yn bladuriau, ni fyddai y byd unrhyw lawer yn nes at gael heddwch a thawelwch parhaus, tra byddai anwybodaeth a chulni, trachwant a chenfigen, digofaint ac anghyfiawnder yn cael llechu yn meddyliau a chalonau dynion.

Summuder yr achos, ac fe ddiflana'r effaith. Symmuder rhagfarn a choelgrefydd, trachwant a chenfigen, a digofaint, twyll ac anghyfiawnder, gyda'r arferion a'r credöau sydd yn tueddu i gynnal ac annog y drygau achosol hyny; ac yna fe dderfydd rhyfel yn lân a phob anghydfod. Ac yn eu lle gadawer i oleuni a chariad "Duw a Thad pawb oll" lewyrchu a llywodraethu yn meddyliau a mynwesau dynion, ac i'r graddau y dygir hyny oddiamgylch bydd darfod ar bob gelyniaeth ac anghydfod; a gwir gymmod wedi cymmeryd lle rhwng dyn â Duw, a rhwng dynion â'u gilydd—y cymmod mawr y prophwydwyd ac y taer-obeithiwyd am dano; y llafuriwyd ac y dioddefwyd cymmaint drosto, yn ac wedi cyrhaedd ei gyflawniad—ac, i'r un graddau, y byd a'i drigolion ar y ffordd uniongyrchiol i ddyfod yn "deyrnas Dduw a'i Grist ef."

Swm yr ychydig sylwadau sathredig yma, yw hyn, nad yw rhyfel ddim ond ffrwyth naturiol anwybodaeth, hunanoldeb a nwyd anifeilaidd:—arwydd neu ganlyniad o ddiffyg pwyll a deall da; neu, o fod rheswm a chydwybod dynion yn rhy wan i allu cadw'r nwydau afreolus dan llaw:—bod rhyfel, fel drygau eraill, o ran yr achos o honynt, i gael ei briodoli i ammherffeithrwydd dynoliaeth, yn hytrach nag i ewyllys a threfniad yr Anfeidrol ddoeth;

ac er, fel drygau eraill o'r fath, yn anocheladwy yn y cyflwr isel ac ammherffaith sydd ar grefydd a moesoldeb yn y byd, etto fod Duw yn goruchlywodraethu y drygau yma, ac yn peri i'r cyfan gydweithio er dwyn oddiamgylch ei amcanion doeth a daionus.

Am hyny os bydd neb yn myned i dderchafu ei lais yn erbyn rhyfel a rhyfelwyr;—a pha berchen pwyll a theimlad na waedda yn erbyn y fath ynfydrwydd a bwystfileidd-dra?—etto tröed ei olwg yn ol, ac edrychad pa fath egwyddorion ac arferion sydd yn cael y llywodraeth gydag ef gartref. Ac heb fyned i farnu eraill, edrychad pob un i mewn i'w galon ei hun. A ydyw trachwant neu hunan-gais; balchder neu genfigen; llid neu ddiledd; neu rhyw un o honynt, yn cael lle i lechu yn y fynwes? Nid yn ddiberygl nac heb niwed mawr y rhoddir llettŷ am noswaith nac am awr i'r teimladau gwaharddedig hyny, y rhai ydynt mor ddinystriol i dawelwch mewnol ac allanol ag y maent yn groes i ewyllys a gorchymyn y Creawdwr. Beth bynag a farner ynghylch yr achos o hyny, dyma ydyw sefyllfa beryglus dynoliaeth yn eu cyflwr presennol o dreial a dysgyblaeth. Ond (2) fod moddion, o roddiad Duw'r trugaredd—o drefniad doethineb nefol—ac o nerth digonol i ladd trachwant a chenfigen, i ddofi llid a darostwng balchder, ac i droi y neb trwy ffydd a'u derbyniont, o fod yn blant digofaint, i fod yn feibion a merched ufydd i'r Tad Hollalluog: ac mai dyma ydyw gwir drefn y cymmod sydd trwy efengyl Iesu Grist. Ac (3) yr ymddengys hefyd mai nid trwy ddysgu fod cyfiawnder dialeddol wedi cael ei ostegu a'i foddloni trwy "angheu'r groes," nac ychwaith trwy gyhoeddi fod Duw yn cael ei wynfyd a'i ogoniant yn mhoenedigaeth tragwyddol yr anufydd a gwrthodedig—ond gwaith ei ddwylaw ef; nid trwy ddarlunio Duw felly yn ymddwyn mewn modd gwaharddedig a dirmygys i ddynion ymddwyn; nid trwy y fath ddarluniad y mae dwyn dynion i garu Duw a'r holl galon, ac i garu eu gilydd, fel plant yr un Tad. Y mae'r byd wedi cael profiad o ffrwythau yr hen athrawiaethau hyny. Ni roddwyd *treial* teg etto i'r athrawiaeth ogoneddus, ond ammhoblogaidd am "Un Duw a hwnw yn Dad."

Ni chaniatteir lle, ar hyn o bryd, i ymhelaethu ar yr egwyddor bwysig a chysurlawn. Ond y mae galwad ar bawb sydd yn derbyn a phroffesu y ddysgeidiaeth nefol, nid yn unig i ymddwyn yn gysson a'i hegwyddorion, ond hefyd i ymdrechu a *milwrio* o'i phlaid. Gocheler nas ceir ni yn annheilwng o fod yn offerynau i daenu y gwirionedd mawr yn ein cymmydogaeth ac yn y byd. Gristion Undodaidd; er nad yw yn gweddu i'th alwad, mewn un modd, it' ddysgu rhyfel a sawdiwra gyda'r *drwm* a'r *fife;* y mae i tithau hefyd *filwriaeth;* "arfau yr hwn nid ydynt gnawdol." Darllen a dwys ystyria, Ephes. vi. 10—18. Ymnertha ac ymwrola, ac er dim

"Gwysg yr arfogaeth sydd o'r Nef,
Gwirionedd Duw a'i gariad Ef." I.

Nid yw yr amser wedi dod eto i uno ynghyd y rheswm tawelaf â'r teimlad dyfnaf.

Mae yn flin genyf ddweyd fod medrusrwydd i farnu yn rhy fynych yn fwy amlwg yn y sawl a ddewisant amcanion isel nag yn y cyfryw a ddewisant rai uwch.

Yr wyf wedi dysgu o leiaf un wers—i beidio a gwanobeithio. Ni raid i'r dyfodol fod yn gopi gwasaidd o'r hyn a aeth heibio. Y mae gallu o fewn i ni, a mwy fyth, gallu uwchlaw i ni, trwy yr hwn y dichon i ni orchfygu llawer, ac yn y pen draw orchfygu pob peth.

"CYMDEITHAS Y DWYFUNDODIAID YN NEHEUBARTH CYMRU."

Da genyf allu dywedyd, a bydd yn dda, gobeithio, gan lawer glywed fod "Cymdeithas y Dwyfundodiaid yn Neheubarth Cymru," yr hon a ymgorpholodd yn y flwyddyn 1802, wedi blynyddoedd meithion o ddiweithrediad, a lledargoelion marwolaeth dragywyddol, yn awr yn dangos arwyddion adfywiad. Megis yr hysbyswyd o'r blaen yn yr Ymofynydd am Awst, 1861, y mae llawer iawn o gopiau o'r "Ymofyniad Tawel" yn aros yn ystorgell y gymdeithas, ond y mae amryw ddwseni o honynt wedi gwneuthur eu ffordd allan yn y cyfamser. Mae'r drws bob amser yn agored, a gobeithio y byddant oll wedi myned cyn bo hir. Bu'r Gymdeithas yn llawforwyn wasanaethgar i Undodiaeth gynt—bydded iddi fod felly yn y dyfodol.

Ni wyddai sylfaenwyr a noddwyr cyntaf y Gymdeithas ddim am yr yspryd sydd yr awrhon yn gweithio mewn rhyw fanau ac yn cynhyrfu dynion i ddadlu dros "More religion and less theology," h.y., yn Gymraeg, *mwy o grefydd a llai o ddifinyddiaeth, neu wybodaeth am bethau a berthynant i Dduw.* Pe buasai Undodiaid Cymru yn bresenol yn cael eu meddianu gan gyffelyb yspryd, oferedd fuasai iddynt i geisio adfywio'r Gymdeithas dan sylw. Ond yr wyf yn hyderus nad ydynt, ac yn gobeithio yr crys y cyfryw amryfusedd tu draw i'r cyfliniau. Llai o wybodaeth am Dduw ac am bethau a berthynant i Dduw!! Mae hyn yn fach, braidd hyd at ddim yn awr, ac ai tebyg y gall gwir grefydd fod dippyn yn fwy? Llawer mwy cfengylaidd fuasai myntumio "More theology and more religion;" oblegid nid oes feithriniaeth i grefydd y Testament Newydd yn y tywyllwch, ac ni flagura mewn anwybodaeth o Dduw ac o bethau Dwyfol. Er iawnu syniadau dynolryw am y Bod Mawr, a'n tywys i iawn ddealltwriaeth o'r gwirionedd megis y mae yng Nghrist Iesu, yr ameanwyd ac yr ameenir y Gymdeithas hon, fel, mewn canlyniad, y byddo crefydd i ffrwytho mewn "cyfiawnder a thangnefedd a llawenydd yn yr Yspryd Glân."

Hyd yma yr wyf wedi derbyn mwy o enwau tansgrifwyr o lanau Aeron nac o un parth arall. Nid yw glanau y Teifi hefyd yn farw, a chefais un enw da ac *aur* gydag ef o Aberteifi. Yr wyf yn ddistaw am Sir Gaer a Sir Forganwg. Cyn terfynu ysgrifenaf allan ddwy o reolau'r Gymdeithas er mwyn y rhai nad ydynt wedi eu gweled o'r blaen:

"Pob aelod a dâl goron yn y flwyddyn, ac efe a gaiff werth ei arian o'r llyfrau—a dalo dri gini ar unwaith a gyfrifir yn aelod dros fywyd.

"Y Gymdeithas a gyfarfyddant yn flynyddol y Iau cyntaf ar ol yr ugeinfed o Fehefin, lle bernir yn gyfaddas, er ystyried amgylchiadau,—diwygio, newid, a chwanegu Rheolau, fel y bo gofyn—pennodi Cyfeistedd,—derbyn ac ystyried cyfrifon a choffadwriaethau'r Cyfeistedd, y Trysorwr, ac eraill. A bydd addoliad a phregeth ar yr achos."

Cyferfydd y Gymdeithas eleni yng Nghaerfyrddin, (ar y 26ain o Fehefin, cofier), a phob un sydd yn ewyllysio'n dda i'r achos anfoned ei enw erbyn hyny i'r ysgrifenydd fel y byddo cyfrif ffafriol i gael ei roddi ar y pryd.

THOMAS THOMAS.

Pantydefaid, Llandyssil, Cardiganshire.
Mai 20fed, 1862.

Gohebiaethau.

Mr. Golygydd,—Cymerais y dernyn a ganlyn o hen lyfr bychan oedd yn fy meddiant, a gefais ar ol hen gyfaill i mi, a'i ddail wedi eu rhwygo bron i gyd; a gwelais y cynghor a ganlyn, ac os y bernwch y bydd o ryw fudd a lles i ddarllenwyr yr Ymofynydd, y mae at eich gwasanaeth. Diau genyf fod llawer un o darllenwyr yr Ymofynydd yn berchenogion defaid, ac wedi gweled y clafr arnynt yn defnyddio pob moddion effeithiol o fewn eu cyrhaedd er symud y clefyd ymaith; dylid cymeryd gofal mawr am greaduriaid mor ddefnyddiol ag mae y Creawdwr mawr wedi eu hanfon i'r byd er lles ei blant. Gobeithiaf y bydd i ryw un wneud prawf o'r cynghor hwn er gweled a etyb y diben neu beidio.

Yr eiddoch,

John Jones, (*Eiddil Cynon.*)

Aberdâr.

Cynghor i iachau y Clafr ar Ddefaid.

Cymerwch *Arian Byw*, haner pwys; *Venetian* ¾ *Turpentine*, cwarter pwys; *Spirit of Turpentine*, owns. Gweithiwch a phwywch hwynt mewn *mortar*, hyd oni byddo i'r arian byw gyd-ymgorphori yn hollol â'r cyfferi eraill, yr hyn ni fydd ddim cynt na phen y pump neu chwech awr. Wedi hyny, cymerwch ddau bwys a chwarter o floneg, a thoddwch ef ar dân araf; a phan fyddo yn glaiar, doddwch ef at yr arian byw, a pharêwch i'w troi hwynt hyd onid elont yn lled dew a gwydn.

Mae yn ymddangos i'r darllenydd y bydd y llafur yn fawr i bwyo y cyfferi dros chwech awr: ond gwybydded hyn, fod rhinwedd y cynghor yn ymddibynu yn fawr ar yr undeb rhwng yr arian byw a'r cyfferi eraill.

Mae bugeiliaid a pherchenogion defaid, mewn amryw barthau o'r wlad, yn hynod o anhysbys o'r ffordd i ddefnyddio yr eli hwn, a thrwy hyny wedi nychu llawer-oedd tan eu llaw, fel y bu perygl am eu bywydau lawer tro. Gan hyny, fe fydd yn fuddiol i roi cynghor a chyfarwyddyd pa fodd i iro y defaid ag ef. Un pwys o'r eli sydd yn ddigon i iro o ddeg i bymtheg o ddefaid, fel y byddo y clafr arnynt. Dylid rhanu y gwlan ar hyd cefn y ddafad, o'i phen i'w chynffon, fel y byddo y croen yn dyfod i'r golwg; wedi hyny cymerer beth o'r eli, a rhwbier ef ar y croen rhwng rhaniad y gwlan, o'r pen i'r gynffon; yna rhaner y gwlan drachefn o gefn y ddafad ar draws ei hystlys o bob tu, a rhwbier yr eli ar y croen rhwng y rhaniad yr un modd. Rhwbier yr eli i mewn hyd y galler. Dyma y ffordd gyffredin o iro defaid i iachau y clafr; neu i'w glanhau oddiwrth fudreddi, a'u hatal hwynt rhag cael y clwyf hwn. Os bydd yr hîn yn wlyb, dylid cadw y defaid, ar ol eu hiro, mewn diddosrwydd am ddwy noswaith neu dair.

YSTORIAU DISAIL, GYDA STWR MAWR.

At y Golygydd.

Syr,—A fyddwch mor garedig a rhoddi lle i'r hyn a ganlyn yn eich cyhoeddiad clodwiw?

Bydded hyspys i'r Parch. M. Roberts, o Felinfoel, fod yr Ymofynydd ac eraill o lyfrau Undodaidd gwedi cyrraedd ardal Cwmfelinmonach, plwyf Llanwinio, er ys blwyddi meithion bellach; ac ei bod hwyrach yn rhŷ ddiweddar yn y dydd i geisio dirmygu Undodiaid (neu Sosiniaid, fel eu gelwir) trwy gamddarluniad ac adrodd chwedlau anwireddus am danynt. Gall pethau o'r fath lwyddo i wneud y tro mewn llawer ardal. Ond y mae yn dda genyf hyspysu'r cyhoedd yn gyffredinol nad ydyw yn bod felly yn y gymmydogaeth hon—fod hyd yn nod hen wragedd yn awr yn gwybod yn well na rhoddi coel i'r fath ystoriau a'r un a adroddodd Mr. R. yn ei bregeth, y 13eg o Ebrill diweddaf, yn y lle uchod; pan y gwnaeth fraslûn o sylwadau ar y benod 1af o Efengyl Sant Ioan, hyd y 15ed adnod (ei destyn). Ac yn neilldnol, yn ei sylwadau ar yr adnod flaenaf--gan adrodd hen chwedl wâg—dywedodd mai dyma ydoedd dull un o'r hen dadau Undodaidd yn addysgu ei blentyn am iawn ddarlleniad yr adnod: sef ydoedd (meddai ef) fel y

canlyn. "Yn y dechreuad oedd y dyn da, a'r dyn da oedd gyda Duw, a Duw oedd y dyn da." [Gyda llawn gymmaint o sail, ond gyda mwy o gymhwysder, gallesid dyweud am Drindodwyr, y rhai a gredant mai yr ail berson yn y Drindod sydd i'w ddeall wrth "y Gair," y byddant hwy yn ceisio esponio yr adnod trwy ddarllen neu arallu yn y modd hyn: sef, "Yn y dechreuad oedd yr ail berson yn y Drindod, a'r ail berson oedd gyda'r person cyntaf, a'r person cyntaf oedd yr ail ber son!"] Ond nid yw unrhyw ddull enllibus o siarad yn gweddu i ymofynwyr tawel a difrifol. Y mae yn ofid ac yn siomedigaeth i glywed hen ystoriau disail yn lle darluniad cywir ac ymresymiad teg, a'r gwaeddi croch yn boddi'r cyfan. Wrth glywed y fath fonllefau daeth i'm côf yr ychydig benillion canlynol a glywais gyfaill i mi yn eu canu yn ddiweddar.

Ydwyf, &c., R. R.

PENILLION.—STWR WRTH BREGETHU.

Mae dau fath o ddynion yn Nghymru yn bod,
Mor wahanol i'w gilydd a neb is y rhôd:
Sef rhai dan bregethau sy' am swnwyr gan wr,
A rhai nad 'ynt feddlawn heb ddigon o stwr.
Stwr, stwr, dim ond stwr!
Yn ngolwg rhai dynion does debyg i stwr,

Mae dynion deallus am bregeth go gall,
Na aller cael ynddi na gwaeledd na gwall;
Y lleill, ni waeth ganddynt tai'n wallau i gyd,
Ond cael digon o waeddi i lanw eu bryd.
Gwaedd, gwaedd, O am waedd!
Peth melus dros ben ydyw ambell i waedd.

"Gogoniant pregethau mewn gwaeddi y sydd;
Mewn synwyr 'does genyf ond ychydig o ffydd;
Ond cael digon o lais eled sylwedd i'r pwll,
Cawn flas pe na waeddid ond 'careg o thwll;'
Llais, llais, hyfryd llais!
Mae rhinwedd rhyfeddol mewn digon o lais."

Dyna iaith y rhai hyny sy'n weigion eu siol,
Heb dderbyn mwy addysg na'r hen wreigen ddôl,
Ac ni wnânt hwy wrando ar addysg lle b'o;
Ni waeth ganddynt dipyn tai'n disgyn i'r gro.
Gro, gro, dyfnder gro!
Ni waeth ganddynt dipyn tai'n disgyn i'r gro.

I foddio rhai dynion fel hyn yn ddi-frêg,
Fe waedda'r pregethwr nes hollti ei geg;
Gad heibio'r gwaith ynfyd, atolwg fwyn wr,
Nid oes ond rhai penwag yn serchu mewn stwr.
Stwr, stwr, ofer stwr!
Nid oes ond rhai penwag yn serchu mewn stwr.

Am ben rhyw stwr mawr y dysgedig a chwardd,
'Fath ddwndwr a lleisio ni thybia'n beth hardd;
Os swn yw pregethu, peth goreu, onide,
F'ai chwythu mewn corn nes adseinio'r holl le;
Corn, corn, mynwch gorn!
Peth goreu ddyfeisiwyd f'ai chwythu mewn corn.

Hanesion Cartrefol a Thramor.

Y LLYS.—Y mae y Frenhines wedi bod yn aros, er ys mis bellach, yn mhalas Balmoral, yn Scotland; mewn cryn unigedd fel y gallesid ddisgwyl. Ond y mae yn dda genym weled fod yr adroddiadau yn dra ffafriol, fod ei Mawrhydi yn gryffa mewn iechyd, ac ei bod yn gallu myned i maes gyda'r Tywysogesau beunydd i fwynhau yr awyr bur yno ac i ymweled â'r golygfeydd a'r teuluoedd sydd ar ei chyfoeth ac yn y gymydogaeth, fel yr arferai wneud. Ar y 18fed o Fai, darfu Dr. M'Leod (gweinidog Presbyteraidd) o Glasgow, yr hwn oedd yn aros yn Balmoral trwy wahoddiad penodol, weinyddu mewn addoliad boreu'r Sabbath yn y Palas, ac wedi hyny yn eglwys blwyfol Crathie. Gwneir paratoadau yn Osborne ar gyfer priodas y Dywysoges Alice a'r Tywysog Louis o Hesse Darmstadt; yr hyn a ddisgwylir i gymeryd lle tua'r 9fed o Fehefin; ond nid yw'r dydd wedi ei gwbl benderfynu, gan fod ei Mawrhydi yn pryderus ddymuno i Frenin Belgium, yr hwn sydd yn awr yn wan ei iechyd, fod yn bresennol ar yr achlysur. Y mae Tywysog Cymru wedi cyflawni ei ymweliadau â golygfeydd yr Aipht a gwlad Canaan, a Syria. Y mae yn awr ar ei ddychweliad adref. Cyrhaeddodd Constantinopl dydd Mercher yr 21ain; a derbyniwyd ef gan y Sultan a'r awdurdodau gyda groesaw a pharch arbenig.

Y Weinyddiaeth.—Dygir ymlaen fatterion y wladwriaeth ar y cyfan gyda chryn hwylusdra a rhwyddineb. Nid yw Argl. Palmerston a'i weinyddiaeth wedi bod mor anturiaethus ag y buasai rhai yn dymuno, ac nid y'nt wedi cwrdd ag unrhyw wrthwynebiad ymosodol braidd ag sydd o werth i'w nodi. Y mae yn debyg bellach y cânt fwynhau eu swyddi a dwyn ymlaen eu mesurau mewn tawelwch dros yr hyn sydd yn ôl o'r tymmor seneddol.

Y Senedd.—*Y Code Newydd.*—Ar y 5ed o Fai cyttunwyd yn Nhy y Cyffredin ar dderbyn y *Code* Newydd yn ei dull ddiwygiedig. Tynodd Mr. Walpole ei benderfyniadau yn ôl, ac amlygodd ei gydsyniad â'r cyfnewidiadau a wnaed gan y llywodraeth. O hyn allan bydd ysgolfeistri a disgybl-athrawon (*pupil teachers*) yn weision i bwyllgorau yr ysgolion, ac nid i'r llywodraeth; ac felly diddymir yr hyn a elwid yn "*vested rights.*" Dygir yr egwyddor o arholiad i mewn hefyd; ac er na fabwysiadwyd hi i'r graddau y cynnygiai y llywodraeth, nid oes ûn ammheuaeth na wna les mawr i addysgiad y genedl. Ymhlith cynnygiadau eraill a wnaed ond a wrthodwyd, cynnygiodd Mr. Bruce, yr aelod dros Merthyr, na byddai i blant Cymru, y rhai ydynt, y rhan fwyaf, yn hollol anadnabyddus o'r iaith Saesneg, fyned o dan unrhyw arholiad dan saith mlwydd oed; ond collwyd y cynnygiad trwy fwyafrif mawr, er fod y rhesymau drosto, debygid, yn anwrthwynebol.

Treth Eglwys.—Mae yr ysgrif er dileu y Dreth Eglwys wedi ei cholli eleni etto. Y nifer dros yr ail ddarlleniad, oedd 287; yn ei erbyn, 288; ac felly ni chafwyd ond y mwyafrif o *un* yn ei herbyn. Y llynedd, yr oedd nifer y pleidleisiau yn gyfartal o bob ochr, a bu raid i'r cadeirydd benderfynu y cwestiwn trwy bleidlais derfynol. Bu mor agos ag oedd bosibl iddo gael yr un fraint eleni. Cymmerodd 610 o aelodau ran yn y rhaniad, yn cynnwys y pariadau. Yr oedd 36 o Ryddfrydwyr yn absennol, ac yn eu plith amryw oeddynt ar ddydd eu hetholiad wedi addaw pleidleisio dros yr ysgrif; nid oedd ond 9 o'r Tories yn absennol. Pleidleisiodd 9 o Dories dros yr ysgrif, a 13 o Ryddfrydwyr yn ei herbyn. Er fod yr ysgrif wedi ei cholli y tro hwn, sylwer na bu ei chefnogwyr yn y senedd erioed mor lliosog—canys cafwyd mwy o bump o bleidleisiau yn ffafr diddymiad nag a gafwyd erioed o'r blaen. Y maent wedi cynnyddu 104 yn ystod yr wyth mlynedd diweddaf; oblegid yn 1854, ni phleidleisiodd ond 182 dros yr ail ddarlleniad. Yna rhanodd y Tŷ ar welliant Mr. Estcourt, yr hwn oedd fel y canlyn :—"Mai annoeth ac annheg fyddai diddymu yr hen arferiad a'r hawl a fu yn arfer gwlad gan y plwyfolion yn y deyrnas hon er cyn cof, i godi treth yn eu mysg eu hunain i adgyweirio eglwys y plwyf, hyd oni wneir rhyw ddarpariaeth gan y senedd tuag at dalu y gofynion ag y mae y wardeniaid yn rhwym o'u talu ar ran y plwyf yn ol arfer neu ddeddf seneddol." Cariwyd y gwelliant gan y mwyafrif o 17 :—y nifer oedd dros y gwelliant ydoedd 288; yn ei erbyn, 271. Ymattaliodd pedwar ar ddeg o aelodau rhag pleidleisio ar yr ail raniad. Derbyniwyd yr hysbysiad am y nifer yn y ddau amgylchiad gyda banllefau o gymmeradwyaeth gan y blaid wrthwynebol.

Yn nghwrs y ddadleuaeth a gafwyd ar yr achlysur, y sylwadau a ymddangosent fwyaf i'r pwrpas ydoedd y rhai a wnaed gan Mr. Bright ar un llaw, a Mr. Disraeli ar y llaw arall.

Cyfeiriodd Mr. Bright at y ffaith hynod fod aelodau Gwyddelig wedi amddiffyn y dreth eglwys; a dangosodd fod Mr. Macdonough wedi addef fod ysgrif oedd wedi gwneud cyfnewidiad mwy yn yr Iwerddon rai blynyddoedd yn ol nag a wneid gan yr ysgrif bresennol, yn un foddhaol, ac wedi gwneud daioni mawr. Yr oedd Mr. Estcourt wedi gwrthwynebu pob ysgrif a ddygwyd yn mlaen i geisio penderfynu y pwngc, ac wedi dywedyd nad oedd unrhyw ysgrif na phenderfynai ef yn werth dim, ac yr oedd y rheswm hwnw yn hollol gymmhwysiadol at ei gynnygiad ef ei hun. Ei farn ef oedd y dylai yr Eglwys ymddiried yn yr egwyddor wirfoddol gyda pheth mor fychan a chwestiwn y dreth eglwys. Yr oedd efe wedi awgrymu cynllun, a phe derbynid ef yn awr, gofynai am i'r ysgrif bennodol gael ei thynu yn ol, sef, fod i bethau aros fel y maent, oddieithr fod i'r gallu i orfodi pobl i dalu treth eglwys gael ei ddileu; ac yna yr oedd efe yn sicr na theimlid un anhawsder i gael

arian at adgyweirio yr Eglwysydd. Addefai y dylai y llywodraeth gymeryd y cwestiwn hwn i fyny.

Dywedodd Mr. Disraeli mai y casgliad yr oedd efe yn dynu oddiwrth yr ymdrechfa hirfaith ar y cwestiwn hwn oedd nad oedd yr amser i'w benderfynu wedi dyfod. Gwir ddiben dygiad yr ysgrif i mewn oedd gwneud ymosodiad ar sefydliadau eglwysig. Nid oedd ond rhan o gynlluniau yr Ymneillduwyr yn erbyn yr eglwys. Pe caniateid hwn iddynt, gofynent am ryw beth arall yn ddioed. Eu hamcan eithaf yw dadgyssylltu yr eglwys oddiwrth y llywodraeth. Ei farn ef bob amser oedd nas gellid byth benderfynu y cwestiwn yn foddhaol heb i'r llywodraeth ei gymeryd i fyny.

Bydd y cwestiwn, ond odid, i gael ei ddwyn yn mlaen y flwyddyn nesaf yr un fath ag arferol.

Yr Arddangosfa yn Llundain.—Agorwyd yr Arddangosfa ar y laf o Fai gan Dduc Cambridge a'r Dirprwywyr eraill. Yr oedd Tywysog Prwssia hefyd a'r Tywysog Oscar o Sweden yn bresennol; ynghyd â lliaws dirfawr o fawrion ac enwogion y wlad, a llawer o'r Cyfandir a gwledydd pellenig, ac yn eu plith yr *Ambassadors* o Japan. Dywedir fod y trefniadau mewnol—y rhai a ddygwyd i fwy o berffeithrwydd yn ystod yr wythnosau diweddaf, yn rhoddi boddhad cyffredinol; a bod yr arddangosiad a geir yno o gywreinwaith a chelfyddyd, a chynrychion gwahanol wledydd y ddaear, y fath ag i beri syndod a hyfrydwch i'r ymwelwyr. Yn mis Mehefin, deallwn, ac o hyny allan, gostyngir y pris am fynediad i mewn i swllt, am bedwar diwrnod yn mhob wythnos.

Y Cyfandir.—*Yn Ffraingc*, beth bynag am fwriadau yr Ymherawdwr, teimlir cryn anesmwythder o herwydd yr ymyraeth â Mexico. Yr oedd y peth yn anmhoblogaidd o'r dechreuad; y mae wedi dyfod yn fwy felly wedi clywed fod byddinoedd Lloegr ac Yspaen wedi gwrthod gwneud dim yn mhellach yn yr ymyraeth, gan ymneillduo ac ymadael â'r wlad, a gadael rhwng y Ffrancod a gwyr Mexico.

Yn *Prwssia*, hyspysir fod y canlyniad o'r etholiadau yn fwy ffafriol i'r blaid Ryddfrydig nag yr oeddid yn ddisgwyl. Gorchfygwyd y Brenin a'i Weinidogion. Ni ail-etholwyd cymmaint ag un o'r cyfrin-gynghor. Y mae yn dda genym gael ar ddeall fod y Brenin, dan yr amgylchiad, wedi gweled y doethineb o roddi ffordd. Yn yr araeth frenhinol, ar gyfarfyddiad y Senedd newydd (Mai 19), caniattawyd y cwbl, a mwy nag oedd Tŷ y Cynrhychiolwyr diweddar yn ei ofyn. Ymhlith pethau eraill, addawyd rhyddhad o'r trethi ychwanegol, lleihad y sefydliadau milwrol, rhydd fasnach, a chyfrif manwl o gyllid a thraul y llywodraeth. Teimlir anesmwythder nid bychan oherwydd yr angenrheidrwydd a welir o wneud ymyraeth cyfryngiadol rhwng *Elector* Hesse Cassel a'i ddeiliaid.

Italy. Bu y Brenin Victor Emmanuel yn ddiweddar yn ymweled â Naples a Sicily, lle y cafodd ei dderbyn gyda groesawiad cyffredinol a chalonog. Saif Arg. Palmerston yn uchel iawn yngolwg yr Italiaid ar y pryd hwn, oblegid yr araeth bwysig a rhagorol a wnaeth ef yn ddiweddar yn Nhŷ y Cyffredin, o blaid Undeb Italy.—Mewn cymmanfa eglwysig a gynhaliwyd yn Rhufain ar yr 22ain o Fai, cyttunwyd yn unfrydol ar wneud y merthyron yn Japan yn Seintiau Canonaidd; yr oedd 23 o Gardinaliaid a 120 o Esgobion yn bresennol. Wedi hyny traddododd y Pab bregeth iddynt, yn yr hon y dangosai deimladau neillduol o gyffrous.

America.—Y mae'r newyddion diweddaf o America o'r fath ag i greu gobaith y gwelir diwedd yn fuan ar y gwrthryfel a'r rhyfel echrys a brawdladdol sydd wedi bod yno am fisoedd lawer. Y mae'r newyddion sydd wedi ein cyrhaedd ar y cyfan yn hollol ffafriol i'r Gogledd. Gwelodd y Confederates yr anghenrheidrwydd o ymadael o'u hamddiffynfeydd cedyrn yn Yorktown, gan adael llawer iawn o fagnelau a chaddarpariaethau ar eu holau. Os ydoedd eu gallu, fel y dywedir yn 100,000, ag os oedd eu hamddiffynfeydd mor gadarn ag y dysgrifid gan flaenor llu yr Undebwyr, y mae yn anhawdd cyfrif am yr enciliad hwn. Pa fodd bynag erlidiwyd yr encilwyr, a bu brwydr yn agos i Williamsburg, yr hon a drodd yn ffafriol i'r Undebwyr. Bernid yn gyffredinol mai yn neu ger Richmond yr ymleddid y frwydr fawr, yr hon hwyrach fyddai i bender-

fynu tynghed yr ymdrechfa. Saif Richmond ar yr afon St. James, ac y mae mewn cymmundeb a Norfolk a'i harfdŷ. Yn awr y mae Norfolk wedi syrthio i ddwylaw yr Undebwyr. Rhoddwyd y lle i fynu i'r Cadfridog Wool heb ddim ymladd. Cyn i'r milwyr oedd yno gilio o'r lle, darfu iddynt losgi neu ddystrywio y llongau a'r cottwn a phob meddiant nad allent gymeryd ymaith gyda hwynt. Ar yr un pryd llosgwyd hefyd y *Merrimac*, a chwythwyd hi i fynu yn chwilfriw rhag syrthio i feddiant y gelyn. Y mae New Orleans hefyd wedi ei chymeryd ac yn awr yn meddiant yr Undebwyr, ac y mae felly y Mississippi yn agored i'w llongau rhyfel cyn belled a Memphis.

CYFARFOD BLYNYDDOL YN NGHAERFYRDDIN.

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol yn Nghaerfyrddin ar y 25ain a'r 26ain o FEHEFIN. Fe fydd y cyfarfod i ddechreu prydnawn dydd Mercher am chwech o'r gloch; a bore dydd Iau am Un-ar-ddeg.

D. LLOYD.

Bu Farw—

Mai 11eg, yn 82 oed, Mr. David Jones, Heddgeidwad, ar ol byr gystudd. Deuwyd a'i weddillion marwol adref o Bontrhydfendigaid, lle yr oedd yn aros pryd y bu farw, i gael eu claddu ynmynwent Penrhiw, Llangeler. Yr oedd tyrfa liosog a galarus yn ei hebrwng i'w hir gartref. Yn y tŷ gweddiwyd gan y Parch. W. Hughes, Penrhiw, a phregethwyd yn y capel oddiwrth Preg. ix. 13—18, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. W. Thomas, Llwynrhydowen. Yr oedd y trancedig yn adnabyddus i gylch helaeth o gyfeillion, a pharchus ac anwyl iawn ganddynt oll. Bu mewn cysylltiad a'r eglwys yn Penrhiw am lawer o flynyddau, ac ymdrechodd mewn amser ac allan o amser gyda'r Ysgol Sabbathol a'r canu, ac nid oedd neb yn fwy ffyddlon a galluog gydag unrhyw ran o'r gwaith da. Yr oedd yn gerddor rhagorol, ar dafod ac ar offer, yn siaradwr rhwydd a threfnus, o wybodaeth gyffredinol helaeth, o serchogrwydd enillgar, ac o benderfyniad ac egni tuhwnt i'r cyffredin. Ni bu ond tri mis cyn myned i huno wrth ochr gwraig anwyl ei ieuenctyd, a chyda hwynt eill dau gorphwys eu cyntafanedig. Efe a ymdrechodd ymdrech deg, a orphenodd ei yrfa, ac a gadwodd ei ffydd.

CYFAILL.

Mai 13eg, Hannah Thomas, gwraig John Thomas, o'r Hafod, Clydey, swydd Benfro, yn 81 mlwydd oed. Yr oedd yn hen wraig barchus iawn yn y gymydogaeth yr oedd hi yn byw ynddi, ac yn aelod ffyddlon gyda'r Undodiaid yn nghapel Panteg ger Castellnewydd-Emlyn. Ar y Gwener canlynol ymgasglodd tyrfa liosog i'w hebrwng i'w bedd distaw. Claddwyd hi yn mynwent Panteg, a phregethodd y Parch. W. Hughes, gweinidog y lle, ar yr achlysur, oddiwrth Ioan xi. 25.

Mai 14eg, yn 78 mlwydd oed, ar ol hir gystudd blin a dioddefaint mawr, Mary, gwraig John Michael, Carn Careg-y-dwfn, gerllaw Llandeilo. Bu y trancedig yn aelod rheolaidd am amryw flynyddau yn Onnenfawr, lle y teimlir galar ar ei hôl. Gadawodd briod hawddgar a phlant anwyl mewn hiraeth ar ol colli ei chyfeillach hynaws. Pregethodd gweinidog yr Onnenfawr yn ei hangladd, oddiwrth Rhufeiniaid v. 17, i dyrfa led liosog. T. E.

Mai 17eg, yn 88 mlwydd oed, John Thomas, Hafod, Clydey, sir Benfro. Yr oedd yn hen wr selog iawn o blaid Undodiaeth, a theimlid colled mawr ar ei ol gan gynulleidfa Panteg, lle yr oedd wedi bod yn aelod cymeradwy iawn am lawer o flynyddau. Ar y Mawrth canlynol dodwyd ef i orwedd wrth ochr ei wraig, yr hon a gladdwyd y Gwener o'r blaen. Pregethodd y Parch. Wm. Hughes ar yr achlysur oddiwrth Salm cxliv. 4.

Barddoniaeth.

YR ATHRODWR.

Athrodwr balch, wr gwyllt ei nwyd,
I'w rwysg a'i fawredd ffol ymgwyd;
Ar dwyll a brad rhydd oll o'i fryd,
Gan fawr enllibo pawb o'r byd.

Athrodwr balch goledda drais,
Yn erbyn cariad cwyd ei lais;
Ei galon sydd fel darn o ddur,
Mae'n groes i bob dedwyddwch pur.

Athrodwr balch a'i eiriau ffol,
Wna ddenu gwg pob dyn o'i ol;
Gwna roddi ffordd i ffrwyn ei wŷn,
Gan iselhau cymeriad dyn.

Athrodwr balch yn oll o'i waith,
Coleddu wna g'wilyddus iaith;
Gan fawr ddirmygu dynol ryw,
A gelyn pob cymdeithas yw.

Athrodwr balch ymhogo'i gledd,
Arfogi wna yn hyll ei wedd,
Gan ddifa heddwch pob dyn byw,
Drwy feithrin cynhen o bob rhyw.

Athrodwr balch a gyll ei glod,
Pob parch, a mawredd is y rhod;
Ond colled waeth gyferfydd ef,
Sef colli hawl i deyrnas nef.

Trecynon. DEWI IAGO.

PENNILLION

o ganmoliaeth i Jenkin Davies, Ysw., Ynyslwyd, fel Gwir Odydd a Dyngarwr.

Beth fel cymeriad da?
Teilyngdod dyn a'i foes;
Ei law a'i galon wna
Ddaioni hyd ei oes:
A buan gwrendy gwyn,
Neu gais y dyn tylawd:
Gwna aberth er ei fwyn,
A'i alw ef "fy mrawd."

Un o'r nodweddau pur
Geir uchod, yw y gwr
Ganmolwn fel ein gwir
Hoff darian dewr a'n twr;
Dyngarwch ar ei rudd,
Yn argraffedig gawn,
A'i galon wladgar sydd,
O gariad pur yn llawn.

J. Davies, yswain, yw,
A gwr o uchel radd,
Gelyniaeth o bob rhyw,
Wna ef ymdrechu ladd;
Yn y gymdeithas mae
Fel yr iselaf frawd,
A byth ni ddewis rhoi
Neb yn destunau gwawd.

Odyddiaeth hoff a ddyd,
Ar yr uchelaf sedd,
Dan nawdd ei aden glyd,
Fe'i nodda hyd ei fedd;
Yn ddidwyll gwnaeth ei ran,
Yn nosbarth Aberdar,
Ac fe'i mawrygir gan
Ei frodyr oesau bar.

Derchafodd ef ei hun
Yn mhlith Odyddion hyf,
A daeth o'u plaid fel dyn,
A llaw a chalon gryf;
Er meddu urddau gwiw,
Boneddion teg eu gwawr,
Y *gweithiwr*, gwelwch, yw
Ei gyfaill ef bob awr.

Dynodir hwn ynghyd,
A'i urddas gan bob rhai,
Pan byddo trawsion byd,
Ar aden angho'n ffoi;
Tangnefedd idd ei ran,
Yn mhlith awelon hedd,
Fydd iaith dyngarwyr gan
Gyfeirio "dacw 'i fedd."

Aberdar. CARNHUANDES,
Sef, D. R. LEWIS.

GOLWG AR WEITHREDOEDD DUW YN Y GREADIGAETH.

Mae'r meusydd, mae'r dolydd blodeuog,
Mae'r llwyni a llysiau a phob grawn,
Yn nodau o anfeidrol ddoethineb,
I'w canfod o'n hamgylch yn llawn.

Mae'r nefoedd serenog yn gemu
Gan fydoedd disgleirwych diri',
Yn troi yn eu cylchoedd nodedig,
Trwy allu'r anfeidrol Dduw cu.

Mae'r adar asgellog trwy'r llwyni,
'Nymbyncio'n dra diwyd eu gwaith,
Maent oll yn mwynhau eu dedwyddwch.
Mor hyfryd a pheraidd eu hiaith!

Mae'r moroedd tra mawrion a llydain,
Mae'r tonau cynddeiriog i gyd,
Mae'r pysc sydd yn nofio'r holl eigion,
Dan ofal Creawdwr y byd.

Maent oll fel yn disgwyl yn llawen
Am bobpeth o'i law dirion Ef,
Er cynal y bywyd sydd ganddynt,
O law y doeth Lywydd o'r Nef.

Mae Duw, yn ei allu mawreddog,
Yn hardd a godidog ei waith;
Llais uchel sydd gan ei weithredoedd
I'n llòni tra b'om ar ein taith.

D. DANIEL.

Paid ddarllenwr bod fel gogor,
Dàl y brychau heb ddim rhagor;
Gad i'r brychau fyned heibio,
Dàl yr hyn o wir sydd ynddo.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LLYSHON.